

ECO'R WYDDFA

Rhif 234

MAI 1997

Pris 30c.

Apêl Bws-mini Ysgol Brynrefail

Yn dilyn newidiadau deddfwriaethol daeth oes bws-mini Ysgol Brynrefail i ben ym mis Chwefror eleni. O ganlyniad fe benderfynodd Cyfeillion Ysgol Brynrefail sefydlu apêl i godi £20,000 i brynu bws newydd. Oherwydd natur wledig y dalgylch mae bws-mini yn adnodd angenrheidiol i sicrhau cludiant rhad i alluogi'r ysgol i fynd a'r plant i ddigwyddiadau y tu draw i diriogaeth yr ysgol. Fel rheol bydd yr ysgol yn anelu tuag at gynnig cyfleoedd i'r holl ddisgyblion i

gymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden, ymweliadau cwricwlaidd, ymweliadau theatr, cyngherddau, gweithgareddau chwaraeon ac ati.

Dros y misoedd nesaf fe fydd Cyfeillion Ysgol Brynrefail yn trefnu cyfres o weithgareddau i godi arian tuag at yr achos yma. Bydd yn cysylltu â mudiadau a chymdeithasau lleol i ofyn am gefnogaeth i'r achos. Mawr obeithir y gellir dibynnu arnoch i gefnogi'r ysgol er mwyn sicrhau llwyddiant y fenter.

GORAU'R WLAD



Daeth dau griw lleol adref o Aberystwyth yn ystod mis Ebrill wedi profi eu hunain yn bencampwyr cenedlaethol. Ar Ebrill 20fed enillodd tîm pêldroed dan 12 oed Ysgol Brynrefail Dlws Cyril Rogers trwy guro Ysgol yr Olchfa, Abertawe, o 3 gôl i 2. Cewch yr hanes yn llawn ar y tudalennau canol.

Ar Fai 5ed enillodd Seindorf Arian Deiniolen rownd gyn-derfynol Pencampwriaethau Prydain a dod yn bencampwyr Cymru eu dosbarth am y drydedd flwyddyn yn olynol. Dyma'r seithfed flwyddyn ers 1989 i'r Seindorf gyrraedd y rowndiau terfynol. Yn sgil eu llwyddiant mae'r Seindorf wedi ennill dyrchafiad i'r Ail Adran ar gyfer 1998. Cynhelir rownd derfynol Pencampwriaeth Prydain yn Birmingham ar Fedi 27, a dymunir pob llwyddiant i'r Seindorf yno.

Y band a'r hogia'n ennill yn Aberystwyth



ECO'R WYDDFA

Rhif 234
MAI 1997

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd
Cibyn, Caernarfon

Cyhoeddwyd gyda chymorth
Cymdeithas Gelfyddydau
Gogledd Cymru

SWYDDOGION A GOHEBWYR

Golygyddol:

JOHN PRITCHARD
CILFYNYDD, LLANBERIS
Ffôn: (01286) 872390

IWAN ROBERTS
LLEIFIOR, LLANRUG
Ffôn: (01286) 675649

Cadeirydd Pwyllgor Llywio:
ARWEL JONES
CAE EBONI, PENISARWAUN
Ffôn: (01286) 871274

GOLYGYDD CHWARAEON
Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel.
(01248) 670115

DYDDIADUR Y MIS
Mrs Margaret Cynfi Griffith, Cynfi,
Deiniolen (870394)

FFOTOGRAFFWR
Gwyndaf Hughes, Glasgoed,
Llanrug (677263)

DATBLYGU LLUNIAU
Bryn Jones, Elidir, Allt Dewi,
Bangor (01248) 353337 neu 871925

TREFNYDD HYSBYSEBION
John Roberts, Bedw Gwynion,
Llanrug (675605)

TREFNYDD BWNDELU
Ann Gibbins, Lodi Plas Tirion, Pontrug
(673696)

TREFNYDD ARIANNOL
Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (674839)

TREFNYDD GWERTHIANT POST
Mrs Olwen Llywelyn, Pant Afon Bach,
Llanrug (650200)

TREFNYDD PLYGU
Shioned Griffith (650570)

GOHEBWYR PENTREFI

Dyma'r bobl i gysylltu â nhw
yn eich ardaloedd.

BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran
(01248 670726)

BRYNREFAIL: Mrs Lowri Prys Roberts-
Williams, Godre'r Coed (870580)

CAEATHRO: Clive James, Hafan, Bryn
Gwna (677438)

CEUNANT: Trystan a Sioned Larsen,
Bodafon, Ceunant (650799)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
Glanrafon (872275)

DEINIOLLEN: W. O. Williams,
6 Rhydfadog, Deiniolen (871259)

DINORWIG: Glyn Tomos, Pen y
Bwlch, Dinorwig (870576)

LLANBERIS: Gwyneth ac Eifion
Roberts, Becws Eryri (870491)

LLANRUG: Eryl Roberts, 3 Bryn
Moelyn (675384)

NANT PERIS:

PENISARWAUN: Mrs Ann Evans,
Sycharth (872407)

TAN-Y-COED: Miss Anwen Parry, Ael-
y-Bryn (872276)

WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts,
Pantafon, Waunfawr (650570)

Y RHIFYN NESAF

Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg
NOS IAU, MAI 29
Deunydd i law'r
golygyddion perthnasol
NOS LUN, MAI 19
Os gwelwch yn dda

DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU'R ECO

Trefnydd Plygu: Mrs Shioned Griffith, Pantafon, Waunfawr, (01286) 650570

RHIFYN	DYDDIAD PLYGU	BLE?	CYSYLLTU Â	RHIF FFÔN
MAI	MAI 1	DEINIOLLEN	Mr W. O. Roberts	871259
MEHEFIN	MAI 29	BRYNREFAIL	Mrs L. P. Roberts-Williams	870580
GORFFENNAF	MEHEFIN 26	BETHEL	Mr Geraint Elis	(01248) 670726
AWST	—	—	—	—
MEDI	MEDI 4	DINORWIG	—	—
HYDREF	HYDREF 2	PENISARWAUN	Mrs Ann Evans	872407
TACHWEDD	HYDREF 30	LLANBERIS	Mr Gwilym Evans	872034
RHAGFYR	TACHWEDD 27	CAEATHRO	Mr Clive James	677438

MAE CAMERÂU YR ECO AR GAEL GAN Y CANLYNOL:

BETHEL: Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl (01248) 670115
WAUNFAWR: Heulwen Huws, Argoed (01286) 650556
DEINIOLLEN: Valmai Williams, Hafle, 2 Rhes y Faenol (01286) 871174
LLANBERIS: John Pritchard, Cilfynydd (01286) 872390

Llythyrau

Ysgol Gwaun Gynfi

Cawsom bentwr o lythyrau oddi wrth blant blynyddoedd 5 a 6 Ysgol Gwaun Gynfi yn gofyn am help darllenwyr yr Eco. Mae'r dosbarth yn gweithio ar y thema 'Y Ffilltir Sgwâr' ac yn naturiol yn ymchwilio i hanes Deiniolen a'r cylch. Maent yn dysgu am y

Diolchiadau

oddi wrth Dr Pam

Bydd gennyf atgofion hapus iawn am fis Mawrth eleni.

Roedd y cyflwyniadau a'r geiriau caredig ar ran holl bentrefwyr Llanberis, Nant Peris, Deiniolen, Dinorwig, Penisarwaun, Brynrefail, Cwm-y-glo, Llanrug a Rhiwlas yn cael eu gwerthfawrogi'n fawr, a chfeais fwyntiad mawr yn y cyfarfodydd pentrefol.

Diolch i chiwi i gyd am y llu dymuniadau da a'r anrhegion ar fy ymddeoliad.

Dymunaf hefyd ddiolch yn arbennig i bawb a fu'n gweithio gyda mi dros y blynyddoedd ac a fu'n gymorth i wneud fy ngwaith fel meddyg teulu yn gymaint o bleser.

mynyddoedd a'r pentrefi a'u hardal trwy ddefnyddio pob math o ddeunydd (gan gynnwys gwaith fideo).

Gofyn mae'r plant os oes gan rywun bethau fel lluniau neu fapiau o'r ardal i'w rhoi neu eu benthyca iddynt. Maent yn chwilio am hen hanesion am y pentref hefyd.

Os medrwch chi helpu'r plant efo'u gwaith a wnewch chi gysylltu â'r Ysgol, os gwelwch yn dda. Y rhif ffôn ydi (01286) 870687. Mae'r plant yn barod iawn i alw heibio i nôl unrhyw beth a fyddai o help iddynt yn eu gwaith.

Diolch am y llythyrau a

anfonwyd atom gan:

ALETEA
MATHEW BARLOW
MARK DEMICALI
RUTH EDGE
LAURA WYN HUGHES
IONA
MICHAEL JOHN
DONNA JONES
GARI LEE
CEIRION WYN OWEN
PHILIP A. SINCLAIR
EMMA LOUISE TAYLOR
CHRIS ROBERT THOMAS
LAURA WALLIS
ANEURUN WILLIAMS
COLLETTE WILLIAMS

Hwyl fawr i chi efo'r gwaith a gobeithio y cewch chi ymateb da i'ch cais am gymorth.

NOSON LANSIO APÊL BWS-MINI

Ysgol Brynrefail, Llanrug

cynhelir

SIOE FFASIYNAU
yn YSGOL BRYNREFAIL, LLANRUG
NOS FERCHER, 21 MAI 1997

am 7 o'r gloch

DILLADAU GAN ASC SPORTS, CAERNARFON

a SIOP DDILLAD GARBO, BANGOR

gyda MODELAU O'R YSGOL

Tocynnau i'w cael o'r Ysgol neu siopau lleol am £2 yn cynnwys paned (£1 i blant a phenisynwyr)

DEWCH YN LLU I GEFNOGI'R YSGOL

SPAR

**Y STORFA
LLANRUG**

(Richard a Meirwen
Williams)

Ffôn: (01286) 672790

Ar agor bob dydd
o'r wythnos at eich
gwasanaeth

Nid oes unrhyw dâl am
ddanfôn archeb i'ch cartref
yn ardal Llanrug



Llanberis 870203

Ar agor trwy'r flwyddyn ar gyfer priodasau, dathliadau bedydd, penblwydd a phob achlysur arbennig arall. Gallwn drefnu adloniant — disgo a.y.y.b. Bwydlen Bar a Restaurant Cinio Dydd Sul

Emyr Jones
PLYMAR
A PHEIRIANNYDD
GWRESOGI

Cynnal boileri nwy,
olew, tanwydd solat
a thredio peipiau

44 Glanffynnon
LLANRUG
(01286) 673513

hefyd
(0374)
496616
(symudol)



Cyfarfod Blynyddol Antur Padarn

Cynhaliwyd Cyfarfod Blynyddol Antur Padarn Cyfyngedig — cyfarfod cyntaf o'i fath ers cofrestru Antur Padarn yn gwmni cyfyngedig. Cynhaliwyd y cyfarfod yn y Ganolfan Gymunedol, Penisarwaun, nos Iau, 20 Mawrth, am 7.00 o'r gloch.

Yn ei annerchiad dywedodd y cadeirydd, Glyn Tomos, fod anghenion cymdeithasol, ieithyddol, diwylliannol ac economaidd y fro mor amlwg ag erioed ond bod ceisio gweledigaeth glir ar gyfer gweithredu rhaglen y gall pob asiantaeth neu awdurdod weithio gyda'i gilydd er lles ein cymunedau yn llawer mwy anos i'w gyflawni. Roedd o'r farn bod profiad y blynyddoedd diwethaf wedi dangos bod gormod wedi ei golli yn y gorffennol trwy i lais y gymuned gael ei ffigu oherwydd methiant gwahanol asiantaethau i weld mai trwy ddod at ei gilydd i rannu a gweithredu syniadau y mae symud ymlaen er lles pawb. Er hynny cyfeiriodd at ddatblygiadau sydd wedi eu croesawu gan yr Antur yn ystod y flwyddyn. Cyhoeddodd Cyngor Gwynedd, ac yn benodol Adran Cynllunio a Datblygu Economaidd, eu bod yn bwriadu datblygu strategaethau — un ar gyfer dyffrynnoedd llechi ardal Gwynedd ac un ar gyfer cynnig cyfeiriad ac amcanion clir i wasanaeth rheoli Cefn Gwlad y Cyngor. Yr un mor galonogol yw bwriad y Cyngor i ymgynghori yn llawn â'r Cynghorau Cymuned a'r cyrff perthnasol yn y broses o lunio y strategaethau hyn. Mae hyn yn sicrhau yn gam i'r cyfeiriad iawn. Gwyddom o brofiad ei bod hi'n bwysig sicrhau y bydd y strategaethau hyn yn arwain at gynlluniau y gwelwn weithredu arnynt. Bydd yr Antur yn sicrhau o wneud yn siŵr mai hynny fydd yn digwydd.

Hefyd croesawyd y newydd bod CYMAD sy'n gyfrifol am lunio Rhaglen Leader 2 yn agosach erbyn hyn tuag at benodi Swyddog Maes yn benodol ar gyfer yr ardal hon. Dylai y penodiad hwn fod yn gefn i unigolion a chymdeithasau gwirfoddol ac annibynnol wrth iddynt fwrw ati i lunio cynlluniau ar gyfer sicrhau cymorth ariannol o ffynonellau cyllidol Ewropeaidd.

Ail-etholwyd y swyddogion i'w swyddi am flwyddyn arall ac fe dderbyniwyd yr adroddiad ariannol oedd wedi'i baratoi gan y trysorydd, Paul Rowlinson.


Dathlu llwyddiant gweithwyr Antur Waunfawr



Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf bu ugain o weithwyr Antur Waunfawr yn dilyn cyrsiau hyfforddiant mewn swydd drwy Goleg Menai, o dan y Rhwydwaith Cenedlaethol y Coleg Agored. Llwyddodd pawb i basio eu cwrs ac er mwyn dathlu eu llwyddiant fe gynhaliwyd seremoni wobrwyo yn Stiwdio Barcud yng Nghaernarfon yn ddiweddar ac i gyflwyno'r tystysgrifau i'r gweithwyr.

Llun: Edward Pari-Jones

Cofio Dyn y Telegraff



Mae Cyngor Cymuned Waunfawr wedi gosod cofeb i Syr William Preece, y tu allan i Penrhos, Caeathro, lle treuliodd Preece y blynyddoedd olaf hyd ei farwolaeth ar Dachwedd 6, 1913. Ef oedd prif beiriannydd system Telegraff Swyddfa'r Post. Iddo ef y dangosodd Guglielmo Marconi y system telegraff diwifren yr oedd wedi'i dyfeisio, a bu Preece yn gefnogol iawn i'w arbrofion. Trwy ei gysylltiad â Preece y daethai Marconi i'r ardal hon a llwyddo, ar Fedi 22ain 1918, i ddanfôn neges radio yr holl ffordd o lethrau Cefn Du uwchben y Ceunant i Wahroonga yn Awstralia. Dadorchuddiwyd y gofeb gan Gadeirydd y Cyngor Cymuned, y Cynghorydd Pat Parry.

DRAENOG



Mae teidiau a neiniau yn mynd yn fengach bob dydd. Glywsoch chi am y wraig ifanc o Lanberis aeth i Ysbyty Gwynedd i weld babi newydd ei chwaer yng nghyfraith? Roedd wrth ei bodd cael gafael yn y babi am funud bach. Ond ergyd go galed oedd clywed nyrs yn dweud wrthi, 'Mae'n amlwg fod Nain wedi gwirioni efo'r babi.'

Doedd y nyrs ddim yn dallt BETH A Nath i bechu 'Nain'!

Gŵyl Gyffrous

Bydd Cyngor Henoed Gwynedd a Môn yn cynnal Gŵyl ym Methesda o Fai 3ydd hyd Fai 11eg. Bydd gweithgareddau bob dydd, yn cynnwys sawl cyngerdd. Bydd John Ogwen a John ac Alun yn Neuadd Ogwen ar Fai 3; Côr Meibion y Penrhyn, Adlais a Nia Land yng Nghapel Jerwsalem ar Fai 4; Dafydd Iwan a'r Band yn Fferm Ty'n Hendre, Tal-y-bont ar Fai 7; a Chôr y Sireniaid, Iwan Parry ac Annette Bryn Parri yng Nghapel Jerwsalem ar Fai 11. Am fanylion llawn ffoniwch swyddfa'r Cyngor Henoed yng Nghaernarfon (01286) 677711 neu gyda'r nos ffoniwch Drefnydd yr Ŵyl, Robin Jones (01248) 670140.

DRAENOG



Er cystal yw Ceiliog Llanrug mewn sioeau fe fethodd a deffro'r teulu i gyd pan oedd hi'n ddiwrnod troi'r clociau ymlaen. Bu bron i'r hen geiliog — a'i berchennog — fethu cyrraedd y sioe mewn pryd y bore hwnnw!

Gwasanaeth o'r Safon Uchaf am Brisiau Rhesymol




Gwasanaeth Trylwyr gan y bobl **BROFFESIYNOL** Gwasanaeth Personol Cyfeillgar i **CHWI** Y Gwasanaeth Technegol Gorau i'ch **CAR**. Cystal â Gwasanaeth Prif Ddeliwr Felly, pa gar bynnag ydych **CHWI** yn ei yrru, o Audi i Zastava



Car neu Fan Petrol neu Diesel Carb. neu Chwistrelliad

bydd ein Gwasanaeth ni yn arbed eich chi ac yn ymestyn oes eich car



CARPEDI GERAIT OWEN

GWERTHWR CARPEDI, TEILS CARPED a FEINYL CANNOEDD O DDEWIS O BATRYMAU A RHAI MEWN STOC

FFONIWCH UNRHYW AMSER:

WAUNFAWR (01286) 650552

TRIN GWALLT YN EICH CARTREF MERCHED ★ DYNION ★ PLANT

Lynette Evans

GARNET, LLANRUG

Ffôn: **673981 / 675807**

CHWILOTA

Cymdeithasau Adeiladu Cynnar y Fro



Sefydlwyd rhai o'r Cymdeithasau Adeiladu cynharaf yn y ddeunawfed ganrif, fel arfer gan grwpiau bychan o rhwng ugain a hanner cant o aelodau. Roedd yr aelodau yn talu 'aelodaeth' rheolaidd er mwyn galluogi'r Gymdeithas i adeiladu tai. Ar y cychwyn penderfynid pwy oedd i gael y tŷ cyntaf drwy dynnu torch — rhyw fath o loteri dai i'r aelodau'n unig! Pan fyddai pob aelod wedi derbyn tŷ byddai'r Gymdeithas yn darfod. Mewn ardaloedd diwydiannol yng ngogledd Lloegr y cychwynnodd llawer o'r Cymdeithasau Adeiladu hyn gan roi enwau cyfarwydd i ni fel yr Halifax, y Leeds permanent a'r Bradford and Bingley. Yr Halifax oedd y gynharaf o'r Cymdeithasau hyn gan ddechrau ei hoes fel y 'Loyal Georgian Society' yn 1779. Buan iawn y sefydlwyd cymdeithasau tebyg yn ardaloedd diwydiannol Cymru, yn enwedig cylchoedd y pyllau glo a'r chwareli llechi.

Anfonodd Eirwyn Williams, Llwyncoed, Cwm-y-glo, ddogfennau diddorol sydd yn ei feddiant yn enwi rhai o Gymdeithasau Adeiladu cynnar y fro. Chwarelwyr a gwŷr busnes lleol oedd ymddiriedolwyr ac ysgrifenyddion y cymdeithasau hyn. Weithiau cofnodir eu cyfeiriadau; dro arall dim ond eu henwau'n unig.

Roedd y *Cwm-y-glo Royal Benefit Building Society* yn bodoli erbyn 1867. Ei hysgrifennydd ar y pryd oedd gŵr o'r enw Thomas Jones a gadwai dafarn y Newborough Arms. Roedd gan y gymdeithas bedwar o ymddiriedolwyr: John Hughes, Cwm-y-glo 'Timber merchant', Owen Jones, Halfway, Llanrug; Richard Parry, Disgwylfa, Llanrug, chwarelwr; a Thomas Evans, Rhosddu, Llanrug, chwarelwr. Pam tybed fod ymddiriedolwyr o Lanrug ar Gymdeithas Adeiladu yng Nghwm-y-glo? O bosib fod cysylltiadau â'r Cwm ganddynt. Roedd hynny o leiaf yn wir am Thomas Evans. Fe'i ganwyd yn y Waunfawr tua 1829-30. Symudodd i fyw i Gwm-y-glo ac

oddi yno i Lanrug. Roedd yn aelod yng Nghapel Mawr, Llanrug erbyn 1859 ac yn 1887 fe'i dewiswyd yn flaenor yno. Bu farw yn 1892 ac fe'i claddwyd ym mynwent y capel. Roedd yn parhau'n ymddiriedolwr i'r Gymdeithas yn 1877. Dyna pryd, mae'n debyg, y llyncwyd Cymdeithas Adeiladu lai y *Glanbogelyn Benefit Building Society*.

Ymddiriedolwyr y *Glanbogelyn B.B.S.* oedd Elias Williams, Carreg y Frân, Cwm-y-glo, ffermwr; Richard Parry, Regent House, Llanrug, siopwr (fe'i enwir fel 'late of Llain y gro, Llanrug'); a Richard Jones, Brynrefail, chwarelwr. O ganlyniad i'r cyfuniad hwn daeth Elias Williams yn ymddiriedolwr newydd i'r *Cwm-y-glo Royal B.B.S.* a diflannodd enw Owen Jones, Halfway, oddi ar y rhestr.

Nid ardal Cwm-y-glo a Llanrug yn unig oedd yn cael ei gwasanaethu gan y Gymdeithas Adeiladu hon. Ceir cofnodion amdani yn adeiladu tai ar dir yng Nghoed y Ddôl a Blaen y Ddôl, Llanberis.

Un arall o'r Cymdeithasau

Adeiladu hyn oedd y *Nant Padarn Permanent Benefit Building Society*. Bu'n gyfrifol am adeiladu tai ar dir yn Goodman Street, Llanberis (eiddo Tlodion Rhuthun) mor gynnar a 1862. William Thomas o Gaernarfon oedd yr adeiladydd ar y pryd.

Erbyn 1877 cawn yr enwau canlynol fel ymddiriedolwyr: Hugh Owen, Hafod Uchaf, ffermwr; John Davies, Ty'nraelgerth, chwarelwr; Griffith Jones, Mount Pleasant, chwarelwr; a William John Davies, Glynrhonwy, chwarelwr. Yn 1881 daw enw William Rowlands, Fron Goch, 'quarry agent' yn ymddiriedolwr yn lle Hugh Owen, a deng mlynedd yn ddiweddarach, yn 1891, daw newidiadau eto. Bellach yr ymddiriedolwyr oedd John Briffith, Thomas Currie, William Rowlands a Samuel Rowlands. Yr ysgrifennydd bryd yma oedd John Owen, William Terrace, Llanberis. Rhywbryd ar ôl 1891 newidiodd y Gymdeithas ei henw ac, erbyn 1898, mae'n cael ei hadnabod wrth yr enw 'crandiach' — *The Snowdon Permanent Benefit Building Society*. Nid ymddiriedolwyr sydd iddi bellach ond cyfarwyddwyr, sef Robert R. Roberts a William Owen. Roedd John Owen yn parhau'n ysgrifennydd.

Daeth gwybodaeth i law hefyd am ysgrifennydd y *Cambrian and Eryri Building Societies*. John Robert Roberts oedd ei enw cywir, nid Robert J. Roberts. Fe'i hadnabyddid fel 'Y Trethwr', ac yr oedd yn frawd i hen nain John Fraser Williams o Ffordd Tŷ Du, Llanberis. Ganddo ef y cefais y wybodaeth.

Ganed John R. Roberts yn Ty'n Cae, Llanrug yn 1843 yn fab i Robert ac Ann Roberts, y dau'n enedigol o Ben Llŷn. Ganwyd iddynt chwech eraill o blant, i gyd yng Nghwm-y-glo. Yno yng Nglanbogelyn roedd y teulu'n byw. Priododd John R. Roberts y mab hynaf â Margaret Jaques, athrawes yn ysgol Cwm-y-glo a phrifathrawes adran y babanod yn ddiweddarach. Roedd hi'n enedigol o Darlington, Swydd Durham. Doedd hi ddim yn siarad Cymraeg ond Saesneg wrth gws oedd iaith addysg bryd hynny. Beth tybed ddaeth a hi o

Darlington i Gwm-y-glo? Buont yn byw yn Bryn Crwn ac yng Ngoleufryn, Cwm-y-glo. Ganed iddynt bump o blant ond bu farw tri o'r meibion yn ifanc iawn. Aeth y ddwy ferch ar ôl priodi i fyw i Loegr.

Bu farw'r 'Trethwr' ym mis Gorffennaf 1921, ac yn yr *Herald Cymraeg* am yr wythnos ddilynol cawn yr adroddiad hwn: 'Yr oedd Mr Roberts yn adnabyddus i gylch eang, a chymerai ddiddordeb yng nghwestiynau cyhoeddus yr ardal. Meddai farn aeddfed ac nid oedd neb mor ymdrechgar ag ef i wella ein hardal. Yr oedd hefyd yn gerddor medrus.'

Gyda diolch i'r ddau ohonoch am gysylltu gyda gwybodaeth mor ddiddorol a newydd. Tybed oes yna rywrai eraill o'r darllenwyr all ychwanegu at y wybodaeth? Pryd tybed y diflannodd y Cymdeithasau Adeiladu lleol, a beth ddigwyddodd i'r arian a fuddsoddwyd ynddynt? Oes mwy o wybodaeth ar gael am rai o ymddiriedolwyr neu ysgrifenyddion y Cymdeithasau? A oed unrhyw un yn cofio'r Saesnes o Darlington a ddaeth yn athrawes ar fabanod Cwm-y-glo?

FFATRI PONTRUG

Daeth cais i law yn holi am wybodaeth ynglŷn â theulu a fu'n byw yn y 'Bacon Factory', Pontrug yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf. Safle'r Seiont Nurseries presennol oedd yr hen ffatri, ac mae'n ymddangos fod teulu o'r enw 'Waite' yn byw yno yn ystod y cyfnod hwn. Bu John Waite farw yn ystod Rhagfyr 1916 ac fe'i claddwyd ym mynwent Llanrug. Anfonwch unrhyw wybodaeth am y ffatri neu'r teulu.

MANION

Mae mwy o'r darllenwyr wedi cysylltu ynglŷn â thafarndai'r fro — daliwch i anfon pythau o wybodaeth i mewn. Diolch hefyd i eraill sydd wedi cysylltu ynglŷn â'r Glasgoed (teulu Evans). Bydd yr holl wybodaeth yn cael ei grynhoi a'i gyflwyno mewn rhifynnau diweddarach o'r *Eco*.

Os oes gan unrhyw un ymholiadau, gwybodaeth, pigion neu hen luniau am hanes y fro yna cysylltwch â Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon. Ffôn: (01286) 673515.

Fframia

GWASANAETH FFRAMIO LLUNIAU

Arbenigwyr ar fframio gwaith edau a nodwydd

Nifer helaeth o luniau ar werth

Dewis eang yn cynnwys:

IVOR STUBLEY :: KEITH ANDREW

KEITH BOWEN :: ROB PIERCY

PARC PADARN, LLANBERIS (870922)

(Ar gau dydd Sul a dydd Llun yn ystod y gaeaf)

GWASANAETH TACSI HURIO BWS MINI

CABS LLANRUG

Ffôn: (01286)

675951

Prisiau Cystadleuol — Gwaith Contract — Pell ac Agos

'Un funud fach . . .'

ATEBION

Mae'r holl siarad drosodd ac oni bai eich bod yn darllen hwn y noson y daeth o'r wasg, rydych yn gwybod erbyn hyn beth oedd canlyniad yr Etholiad Cyffredinol. Roedd yr holl drafod a dadlau dros chwe wythnos yr ymgyrchu yn llawn syrffed i rai tra roedd eraill wrth eu bodd â'r holl beth. Gofynnwyd cannoedd o gwestiynau, ac atebwyd degau.

Glywsoch chi'r jôc honno am y plentyn yn dweud bod cwestiynau'r arholiad yn ddigon hawdd, ond bod yr atebion ychydig yn fwy anodd? Dros yr wythnosau diwethaf cafwyd yr argraff bod llawer i wleidydd yn cael yr un drafferth. Mor aml y gwelwyd hwy yn osgoi ateb. Gwnaent bopeth ond ateb ar brydiau: dadlau; ffræo, beirniadu'r gwrthwynebwyr; gofyn cwestiwn eu hunain; a hyd yn oed ateb cwestiynau na ofynwyd iddynt o gwbl. Mae'r cyfan wrth gwrs yn rhan o'r busnes gwleidyddia.

Does ond gobeithio ein bod fel Cristnogion yn well am ateb cwestiynau ynglŷn â'r Beibl ac ynglŷn â'n Ffydd. Gall pob Cristion ateb rhai cwestiynau ar sail y wybodaeth Feiblaidd sydd ganddo ef neu hi. Mae cwestiynau eraill na w'r yr ateb iddynt, un ai am nad yw'n gwybod ei Feibl yn ddigon da neu nad yw'r ateb yn Y Beibl beth bynnag. Ar brydiau felly, cyfaddef na wyddom yr ateb yw'r peth symla a chywir i'w wneud.

Mae Paul yn un o'i lythyrau yn dweud wrth Gristnogion i 'roi ateb am y gobaith sydd ganddynt'. A dyna rywbeth y gall pob Cristion ei wneud. Mae'r Cristion yn gwybod beth yw'r cysur sydd ganddo. Mae'n gwybod beth sy'n cyfrif yn ei fywyd. Mae'n gwybod beth yw sail ei obaith am fywyd tragwyddol. Cariad Duw tuag ato yn Iesu Grist. Os bydd pobl yn sylwi ar ein hagwedd wahanol at fywyd, ein ffydd yng nghanol pob math o argyfyngau, ein llawenydd mewn treialon, byddwn barod i ddweud beth yw'r gyfrinach. Rhown ateb syml i bwy bynnag a fydd yn gofyn i ni beth yw'r nerth a'r gallu sy'n ein cynnal. Dywedwch am yr Iesu a'r cyfan mae'n ei olygu i chi.

JOHN PRITCHARD

PENISARWAUN

Mrs Ann Evans, Sycharth. Ffôn: (01286) 872407

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263

Profedigaeth. Cydymdeimlir yn ddwys iawn â Mrs Matthews, Freshwinds, a'r teulu o golli gŵr a thad annwyl, Mr W. M. Matthews.

Anfonwn ein cydymdeimlad llwyrfafeid i Mrs Sali Griffith, 16 Bryn Tirion ar golli ei brawd, Mr John Pritchard o Ddeiniolen.

Diolch. Dymuna teulu y diweddar W. M. Matthews, Freshwinds, ddiolch yn gynnes iawn i ffrindiau a chymdogion am bob arwydd o gydymdeimlad a fynegwyd iddynt ac am y llu cardiau, galwadau ffôn, ymweliadau a'r rhoddion. Diolch o galon i bawb.

Dathlu Pen-blwydd. Llongyarchiadau a phob dymuniad da i William Lewis, Pen-pwll-coch, ar ei ben-blwydd yn 18 oed ar 17 Mai.

Deallir i'r Parchg Tegid Roberts ac Avril Williams ddathlu pen-blwydd arbennig hefyd yn ddiweddar — pob dymuniad da i chwithau.

Ar 3 Mai bydd Mrs Alice Thomas, 10 Tai Arthur, yn dathlu ei phen-blwydd yn 90 oed. Llongyarchiadau mawr i chwi Mrs Thomas a chofion annwyl atoch.

At Achos Da. Cyflwynodd Alwyn Jones, Racca, siec anrhydeddus o £327 i Sister Ann Williams, Ward 9A, Ysbyty Frenhinol Lerpwl, er budd cleifion sy'n derbyn trawsblaniad yr arennau. Roedd hyn yn dilyn Ffair a gynhaliwyd gan 'Blodau Racca'. Diolchir yn gynnes iawn i bawb a gefnogodd y weithred arbennig hon.

Genedigaeth. Llongyfarchiadau i Marian a Gareth ar enedigaeth merch fach a chwaer i Catrin; wyres arall i Mrs Eluned Jones, Cae Corniog. Pob bendith i chwi fel teulu.

Cymanfaoedd. Pnawn Sul, Ebrill 20fed, bu aelodau Ysgol Sul Bosra yn cymryd rhan yng Nghymanfa'r Annibynwyr yng Nghapel Jerusalem, Llanberis. Diolchir i Erin am gymryd rhan yn y rhannau arweiniol ac i'r plant i gyd am wneud eu gwaith mor raenus. Pnawn Sul, Ebrill 27ain, roeddent yn cymryd rhan yng Nghymanfa'r Methodistiaid yng Nghapel Siloh, Tregarth. Llongyfarchiadau i Sioned Wyn Jones, Bryn Tirion am lywio'r Gymanfa mor raenus.

Bydd yn rhaid trefnu trip yr Ysgol Sul rŵan. Rydych yn llwyr haeddu un.

Pwyllgor Neuadd. Tynnwyd Clwb Cant mis Ebrill a'r enillwyr oedd — 1, A. Morris, Cae'r Waun; 2, Parchg Tegid Roberts; 3, A. Thomas, 10 Tai Arthur. Y mae tocynnau raffl ar werth gan aelodau'r pwyllgor gyda gwobrau lu i'w hennill. Y mae angen offer sain ar y Neuadd ar gyfer cyngherddau, eisteddfodau, a.y.b. Felly, gofynnwn yn garedig i chwi gefnogi'r Raffl Fawr er budd yr Ysgol a'r Gymuned. Diolchir i'r caredigion a roddodd y gwobrau.

Gymnasteg. Mewn cystadleuaeth Gymnasteg a gynhaliwyd yng Nghanolfan Hamdden Caernarfon, ddydd Sadwrn, Ebrill 12fed, bu tri o'r pentref yn hynod o lwyddiannus. Yng ngrŵp B, genethod, enillodd Anest Eifion, Winllan, fedal arian ac fe fydd yn mynd i gystadlu yng Nghaerdydd ym mis Mai. Pob lwc iti Anest. Yng ngrŵp A.B, genethod, enillodd Julia Morgan, gynt o Fryn Eglwys, y fedal arian. Yng ngrŵp A.B. bechgyn, cipiodd Luke Lloyd Hughes, Aljen, y fedal aur. Llongyfarchiadau mawr i'r tri ohonoch.



Anest, Julia a Luke

Tenis. Llongyfarchiadau i Mari Deiniol, 12 Bryn Eglwys, ar ennill Tlws Tennis Byr Gwynedd i enethod o dan 8 oed. Bydd yn cynrychioli Gwynedd ym Mae Colwyn ym mis Mai. Pob hwyl iti Mari.

Pob Lwc. Y mae'r arholiadau ar warthaf y pumed a'r chweched a'r colegau a dymunir pob llwyddiant i bob un sy'n sefyll yr arholiadau.

CAEATHRO

Clive James, Hafan, Bryn Gwna 679501 (gwaith), 677438 (cartref)

Gwasanaethau'r Capel. Disgwylir y canlynol i wasanaethu yn ystod mis Mai:

- 4. Parchg W. R. Williams (10)
- 11. Mr Richard Jones (2)
- 18. Parchg Gareth Maelor (i'w gadarnhau) (10)
- 25. Parchg Gareth Alban (2)

Pwyllgor y Cae Chwarae. Cynhelir cyfarfod nesaf y pwyllgor nos Lun, 19 Mai am 8 o'r gloch.

Gwellhad. Dymunwn wellhad sydyn a llawn i Mr Heinz Muhlenfeld ar ôl iddo fod yn Ysbyty Gwynedd.

Cyngor Cymuned. Cynhaliwyd cyfarfod o'r Cyngor yn y Ganolfan, Waunfawr, nos Wener, 18 Ebrill. Disgwylir bydd papurau'r *Herald* yn darparu erthygl ar hanes Syr William Preece. Ceisir derbyn grantiau adfer yn llawn y tir gyferbyn â wal Glangwna. Parhau mae trafodaeth ynglŷn â thramwyo ar ochr wal 'Refail Bach tuag at Tremallt; ailwynebu'r palmant ger yr hen gapel bach; torri'r gor-dyfiant a chreu palmant newydd Tremallt a llwyfr Celyn; cyflwr y lôn uwchben y gylchfan a thrwy'r pentref; a'r palmant wrth y mynediad i Treflan, Pennant a Mur Mathew. Hefyd ni fu ymateb i'r cais arwyddo'r pentref o gyfeiriad Rhos-bach a chywiro'r enw ar gyfer Byn y Gof. Penderfynwyd cyfrannu £250 at gost Adran yr Urdd yn Waunfawr i Eisteddfod Islwyn. Bydd Antur Waunfawr yn gyfrifol unwaith eto am gynnal y llwybr cyhoeddus rhwng Caeathro Bach a'r cae chwarae. Hefyd bydd pwysau pellach ar Gyngor Gwynedd i arafu cyflymder trafnidiaeth drwy'r pentref, efallai cynnwys arwydd 'gofal hwyaid' fel yr un ger llyn Mwyngul, Tallylyn.

Enillwyr Tynfa Fisol mis Ebrill oedd — £40: Liam Rowland, 4 Glangwna (40); £25: Beti Roberts, Monfa (23); £15: Guto a Nansi Roberts, Tremallt (27); £15: Iona Ceiriog, 4 Erw Wen (98). Diolch yn fawr i bawb am eu cefnogaeth.

Symud Tŷ. Dymuniadau gorau i Mr Eckley sydd wedi symud i fyw o Dŷ Newydd i Gaernarfon. Bydd llwybrau'r fro yn dlotach hebdo!

Priodas. Llongyfarchiadau i Jackey Evans, Llecyn Clyd, ar ei phriodas â Neil Gruffydd o Rachub. Mae'r pâr yn byw rŵan ym Mharc Muriau.

Pa un o'r rhain sydd bwysicaf?

YSWIRIO EICH Tŷ (i arbed colled i chi);

YSWIRIO EICH CAR (i arbed colled i chi); neu

YSWIRIO EICH BYWYD (i arbed colled i'ch teulu)

Cysylltwch â'r isod i weld mor rhad yw cost yswiriant gyda CDH

Andre (Bethel/Llanberis)
Bryn (Môn)

Euryn (Caernarfon a'r cylch)
John Eifion (Penisarwaun)

CDH

Ymgynghorwyr Ariannol
Annibynnol Lleol (sefydlwyd 1974)

Ffôn: (01248) 355055

Siop Trin Gwallt

SANDRA

**Stryd Fawr
DEINIOLEN**

Ffôn: 872112

- Ar agor bob diwrnod o'r wythnos
- Prisiau arbennig i bensiynwyr

Alwyn a Sarah Jones

**RACCA
PENISARWAUN**

★ Blodau ar gyfer pob achlysur

hefyd

★ Dewis da o Lysiau Fferm

★ Wyau Free Range
Ar agor saith diwrnod



870605

**LLYSIAU AR
GYFER PICLO**

O SIAMBAR SELWYN

'Oes gen ti leisans i reidio'r beic 'na fel'na?' — dyna'r geiria a fyddai'n taro ar fy nghlustia i'n amal pan fyddwn i'n gwibio fel cath i gythral o gwmpas heolydd Bethel ar fy Hercules erstalwm.

Oedolion cyfrifol y pentra fyddai'n tanio'r cwestiwn atom ni, a hynny gyda rhyw oslef geryddol yn 'i lleisia nhw. A rhaid i mi gyfaddef mi gyflawnais innau, fel sawl un arall o'm cyfoedion, gampau digon rhyfygus ar gefn yr Hercules.

Geiriau o gerydd fyddai'r cwestiwn — 'Oes gen ti leisans i reidio'r beic 'na fel'na?' Geiriau i geisio'n darbwyllo ni hogiau anturus a gwyllt y cyfnod i fod yn fwy cyfrifol ac yn fwy gofalus wrth farchogaeth ein ceffylau haearn, a hynny er ein lles ein hunain ac, yn bennaf, er lles pawb arall a dramwyai hyd ffyrdd culion y fro.

O edrych yn ôl dros y cyfnod gwyllt hwnnw rwy'n berffaith sicr petai 'na ffasiwn beth a thrwydded i reidio beic fe fyddwn i wedi colli fy leisans. Ia leisans fyddai'r gair yr adeg honno — leisans car, leisans ci a leisans weiarles, ac ambell un o bosib yn codi leisans er mwyn cael bod yn berchen ar wialen a gwn. Gair dieithr oedd 'trwydded'.

Ond sôn am reidio beic roeddwn i, yntê. Mi fydda Mam yn f'atgoffa i'n feunyddiol bron — 'Cofia,' meddai hi, 'does gen ti ddim leisans i reidio'r beic 'na y tu allan i'r pentra 'ma. Os gwêl y plisman di mi gei di "ffein", ac mi golli di dy feic.'

Wrth gwrs gofal mam am ei phlentyn oedd y tu ôl i'r bygythiad — ofn i mi ryfygu 'mywyd drwy fentro y tu allan i ffiniau'r pentre a chael damwain ar y gelltydd. Ond, metro fydda ni — colli leisans, colli beic neu beidio! Reidio i lawr i Gaernarfon ac i draeth Dinas Dinlle yn yr haf. I fyny tua Deiniolen, Rhiwlas a Llanberis gan herio'r gelltydd a thorri rheolau'r ffordd fawr. Do, mi ges

i lot o hwyl ar gefn yr Hercules wrth:

*stampidio fel Jesse James
ar feic o geffyl cowboi
dros lwybrau llychlyd
Arizona'r fro.*

A synnwn i ddim na lwyddais i i ennill mwy nag un Grand National ar 'i gefn o hefyd.

Oeddwn, roeddwn i'n lwcus nad oedd angen i mi gael leisans i reidio beic yr adeg honno.

* * * *

Fûm i erioed yn berchen ar drwydded i bysgota na thrwydded i saethu. A bod yn onest fedrwn i ddim anelu gwn at unrhyw anfiail, ac mi fyddwn i'n diodde'r boen o orfod tynnu'r bachyn o geg pysgodyn hefyd.

Yr unig fath o bysgota wnes i 'rioed oedd dal sili-dons hefo 'nwylo yn afon Tyddyn Bach erstalwm a mynd a nhw adra mewn pot jam.

Ond, 'rhoswch funud. Do, mi ddaliais i eog unwaith — wel, hefo help criw o'r hogia, yntê. Nofio roeddwn ni un pnawn yn llyn Glanrafon pan sylwodd un o'r hogia fod 'na glamp o eog yn llechu o dan y dorlan. Roedd o'n annaturiol o lonydd, fel petai o wedi ei fesmereiddio gan griw o hogia anystywallt a feiddiodd gynhyrfu dyfroedd ei gartref.

Drwy ryfedd wyrth (a chosi o dan 'i fol o) fe lwyddon ni i godi'r creadur llithrig a'i daflu o'r dŵr i'r dorlan. Anghofia i byth y profiad. Ei wyllo yng nghanol y cyffro yn gwingo i'w angau.

Ond rŵan roedd ganddon ni broblem — beth i'w wneud â'r morfil? Wel, fe'i carwyd yn barchus fuddugoliaeth i dy potsiar y pentra, ac fe drefnodd hwnnw i'w werthu o i un o westai Caernarfon. Cyn diwedd yr wythnos roeddwn ni'r pysgotwyr di-rwy, di-enwair a di-drwydded yn fechgyn ariannog. Cafodd pob ohonom ni hanner coron yr un, ac mi alla i fynd ar fy llw mai nid stori tafod-yn-y-foch o waelod y fasged 'sgota ydi honna. Na, mae hi'n stori wir bob gair.

Ond mae 'na un drwydded, hyd y gwela i, sy'n caniatáu i chi ddeud ambell gelwydd — celwyddau diniwed cofiwch. Ia, cyfeirio 'rydwi at y 'drwydded farddol', y poetic licence. Pwy ddwedodd deudwch 'The poet is a liar who always speaks the truth'?

Rhaid i mi gyfaddef i mi wneud cryn ddefnydd o'r drwydded hon, hyd yn oed wrth gyfansoddi darnau adrodd bach syml i blant. Y darn adrodd cynta 'rioed i mi ei gyfansoddi oedd darn yn dwyn y teitl 'Bai ar Gam', a'r geiriau agoriadol yn y darn hwnnw yw:

*Er nad yw Tomi fy mrawd bach
Ddim eto'n ddwyflwydd oed*

Rŵan, yn anffodus, fuo gen i 'rioed frawd bach — na brawd mawr o ran hynny — na chwaer 'chwaith. Manteisio ar y drwydded farddol? Poetic licence? Ia, debyg.

Pennill arall yn yr un darn yw hwn:

*Pob papur newydd ddaw i'r tŷ
Fe'i tyrr yn ddarnau mân,
Ac echdoe taflodd sbectol nain
I ganol fflamau'r tân.*

Yn naturiol ddigon mi glywais sôn sawl tro am y ddwy nain ond welais i 'rioed yr un o'r ddwy. Mi welais luniau o'r ddwy a doedd 'na'r un o'r ddwy yn gwisgo sbectol. Yn anffodus roedd y ddwy nain wedi 'cael eu galw gartre' cyn i mi sgrechian fy ffordd i'r hen fyd 'ma. Felly, tuasg cwblw amhosibl fyddai i mi — ac i Tomi fy mrawd bach dychmygol — 'daflu sbectol nain i ganol fflamau'r tân'. Ia, poetic licence, hwnna ydio.

Ond mae gen i un drwydded swyddogol o leia, sef trwydded i yrru car tan y flwyddyn 1998. Sut fydd hi arnai wedyn ys gwn i? A fydd rhaid i mi, os cyrhaeddaf oed yr addewid, fynd am brawf gyrru arall? Beth petawn i'n methu'r prawf ac yn colli fy nhrwydded?

Twt, pa iws poeni yntê? Rwy'n dal i fedru reidio beic a siawns gen i na fedra i badlo fy ffordd tua'r post i godi 'mhensiwn ar gefn hwnnw. Hynny ydi, os na fydd angen leisans i reidio beic erbyn hynny!



DRAENOG



Does ond gobeithio bod cist y Swyddfa Bost yn fwy cadarn na'r tŷ bach. Syrthiodd hwnnw oddi ar y wal pan bwysodd y perchennog arno.

Cefnogwch ein Hysbysebwyrr

Aled Jones


Peiriannydd
Gwres Canolog
a Phlymio

Y GORLAN
FFRWD CAE DDU
BONTNEWYDD
(01286) 830412

SNOWDONIA PARK

WAUNFAWR Ffôn: 650218

★ Tŷ Rhydd ★ Bwyd Cartref ★
★ Prydau Plant ★ Ystafell Deulu ★
★ Cinio Dydd Sul Traddodiadol ★
★ Cerddoriaeth Fyw ★ Cwrw Go lawn ★



GWYNANT PIERCE

Cynyrchion Coed:-
Gatiau, Ffensus ac ati
am brisiau cystadleuol
Uned 1, Fferm Bryn Afon
LLANRUG
ffôn: (01286) 650349
(0589) 899901

BETHEL

Geraint Elis, Cilgeran. Ffôn: (01248) 670726

Camera yn ngofal Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl. Ffôn: (01248) 670115

Diolch. Dymuna Jenkin a Glenys Griffiths, Llwyn Eithin, ddiolch o waelod calon am y cardiau, anrhegion a'r dymuniadau da a dderbyniasant gan ffrindiau ar achlysur dathlu eu Priodas Arian yn ddiweddar.

Diolch. Gan ei bod bellach wedi ymgartrefu ym Mhlas Pengwaith, Llanberis, dymuna Mrs Mary G. Williams achub ar y cyfle i anfon ei chyfarchion a'i diolch gwresocaf i bawb a fu mor ffyddlon iddi tra yn byw ym Methel a hefyd tra bu yn ysbytai Eryri, Gwynedd a Walton. Dymuna hefyd ddiolch i bawb am eu gofal yn Llanberis.

Cerddorol. Llongyfarchiadau i'r ieuenctid canlynol ar lwyddo mewn amrywiol arholiadau gyda'r Bwrdd Arholi Brenhinol yn ddiweddar: Lois Hughes, Erddig (gradd 1 fflwt); Cadi Ostler, Gwynant (gradd 1 clarinet); Emma Vaughan Jones, Tan y Buarth (gradd 1 clarinet); Sarah Jones, 1 Y Ddôl (gradd 1 ffidil); Ffion Owen, Tŷ'r Ysgol (gradd 2 cornet); Sarah Hughes, Llidiart y Coed (gradd 2 piano); Ifan Rowlands, 23 Y Ddôl (gradd 3 ffidil a gradd 4 piano).

Croeso Adref i Dr Meirion Wyn Jones a'i briod Georgina a'u merch fach flwydd oed, Ffion Angharad, sydd adref am fis o wyliau o Adelaide, Awstralia, lle mae Meirion yn feddyg. Byddant yn aros gyda rhieni Meirion, sef Mr a Mrs Hefin Wyn Jones, 7 Stad Eryri.

Genedigaeth. Llongyfarchiadau i Gwyn a Helen Parry, Seion, Llanddeiniolen, ar enedigaeth mab bychan, Siôn Emlyn, yn Ysbyty Gwynedd ar 24 Mawrth.

Cydymdeimlo. Ddydd Sul, 20 Ebrill, yn Ysbyty Gwynedd bu farw Mr Pierce, mam Mr Ian Pierce prifathro yr Ysgol Gynradd. Estynnwn bob cydymdeimlad â Mr Pierce a'r teulu yn eu profedigaeth.

Llongyfarchiadau i Mrs Tegwen Morris ar ei phenodiad yn ddirprwy-brifathrawes yn Ysgol Gynradd Llanllechid.

Clwb 200 y Neuadd Goffa. Enillwyr gwobrau mis Mawrth oedd — £20: Susan Newton, Llwydiarth, Seion (213); £10: Bert Japheth, Stryd Garmon, Caernarfon (14); £5 yr un: Medwen Green, Medfyn, Corra Linn (188); Joan Jones, Rhos Chwilog (120); John Williams, 15 Y Ddôl

(125); Ellen Jones, Glas Ynys, Tan-y-buarth (212); Jean Hughes, Nefyn (83); Gareth Jones, Llys Elen, Tre'r Gof (224); Ceinwen Williams, Cefn Gwyn (51); Ella Roberts, Acer Las, Y Rhos (216). Diolch i bawb am eu cefnogaeth.

Clwb 100 yr Ysgol. Enillwyr gwobrau mis Ebrill oedd — £20: Dylan Hughes, Llugwy, Stad Eryri (26); £12: Nia Sharpe, Cae Metta, Llanrug (92); £8: Idris Morris, Penlôn, Llanddeiniolen (70); £5: Kathleen Lomas, Wern, Bethel (16); £3: Iwan ac Einir Pritchard, Angorfa, Stryd Ganol (42). Diolch i bawb am eu cefnogaeth.

Merched y Wawr: Cyfarfu'r gangen yn yr Ysgol nos Fercher Ebrill 9fed. Dechreuwyd y cyfarfod trwy ganu 'Fy Iait, Fy Ngwlad'. Croesawydd Mrs Deilwen Hughes, y llywydd, bawb ac yn enwedig aelodau cangen Dinas, Llanwnda a oedd wedi ymuno â ni i gael cwis gan Mr Richard Lloyd Jones, Bethel, a chafwyd noson hwyliog yn ei gwmni. Llongyfarchodd y llywydd Richard ar ei lwyddiant ar y rhaglen deledu 'Bob yn Ddau; hefyd Mrs Glenys Griffiths a'i phriod ar dathlu eu Priodas Arian yn ddiweddar ac i'w mab, Dewi, ar gael ei ddewis yn aelod o Fand Pres Cenedlaethol Ieuenctid Cymru.

Paratowyd y bwyd gan aelodau'r pwyllgor a hwy hefyd a roddodd yr hapchwaraeon, a'r enillwyr oedd Mary Evans, Mair Jones, Ann Lewis, Nora Parry, Eryl Roberts, Eirlys Sharpe a Gwyneth Williams. Diolchwyd i bawb ar ran Bethel gan Mrs Mair Jones, Cilan, ac ar ran Dinas gan Nest Eluned. Ar ôl y cyfarfod cafwyd ymarfer ar gyfer 'Bwrlwm Bro Mis Mai'.

Bydd y cyfarfod nesaf nos Fercher, Mai 14eg, pryd y daw Wenyd o 'Body Talk' i arddangos coluro a dewiswyd tair i gael eu coluro, sef Mrs Anne Elis, Mrs Glenys Griffiths a Mrs Margaret

Williams.

Prifathro Newydd. Yn ddiweddar penodwyd Mr Teifion Thomas, Caernarfon, i swydd prifathro yr Ysgol Gynradd. Bydd Mr Thomas, sydd ar hyn o bryd yn brifathro Ysgol Rhostryfan, yn dechrau yn ei swydd ym mis Medi, yn dilyn ymddeoliad Mr Pierce.

Y Gymanfa. Ddydd Sul, Mai cynhelir Cymanfa Ysgolion Sul yr ardal yng Ngapel y Cysegr. Bydd cyfarfod y pnawn yn dechrau am 2 a chyfarfod yr hwyr am 6. Bydd y canu dan ofal Mrs Rhianwen Huws-Roberts, Penrhosgarnedd. Croeso cynnes i bawb.

DEINIOLLEN

W. O. Williams, 6 Rhydfadog. Ffôn: (01286) 871259

Camera yng ngofal Valmai Williams, Hafle, 2 Rhes y Faenol, Deiniolen (871174)

Rhaglen Radio. Nos Wener, Mai 9fed, bydd cyfle i wrando ar rai o'n doniau lleol ar raglen radio 'Brass Showcase' a ddarlledir ar Radio 2 (BBC) am 9.30 p.m.

Bydd Iwan Williams, 2 Rhes Faenol yn un o'r pedwar unawdydd fydd yn cymryd rhan yn y cyngerdd, yn ogystal â phedwar cyn-aelod arall o Fand Pres Deiniolen, sef Sian Griffiths, Eilir Williams, Euros Williams a Gavin Saynor sydd bellach yn aelodau o Fand Pres Coleg Salford. Llongyfarchiadau iddynt. Rydym fel ardal yn falch o weld eu llwyddiant ym myd y bandiau pres.

Enillwyr Clwb 100 Plaid Cymru. Mis Mawrth — £10: Miss Iris Rees Jones, 18 Hafod Olau; £5: Mrs Mary Wyn Jones, Ceris. Mis Ebrill — £10: Mr Barry Lloyd Jones, 1 Tŷ'r Faenol, Clwt-y-bont; £5: Mrs Heulwen Morris, Cefn Coch.

Diolchiadau

Dymuna Frank Youd a'r genod ddiolch o galon am y caredigrwydd a ddangoswyd iddynt ar yr achlysur trist o golli gwraig, mam a nain annwyl, sef Sally Youd, 30 Rhydfadog. Diolch yn arbennig i Dr Gwyn Williams, hefyd y nyrsus cymunedol. Diolch yn fawr iawn i bawb.

Dymuna Mrs Priscila Williams, Wylfa, Penincline, ddiolch o galon i'w theulu a'i ffrindiau am yr holl roddion, cardiau a dymuniadau da tra bu yn yr ysbyty yn Lerpwl ac ar ôl dod adref. Diolch o galon.

Dymuna Mary Price ddiolch o galon i'w theulu, cymdogion a ffrindiau am yr holl gareidgrwydd a ddangoswyd iddi ar ei phen-blwydd arbennig.

Cyngor Eglwysig. Y Parchg Isaac Jones, Abergelle, oedd y siaradwr gwadd yn y cyfarfod a gynhaliwyd yn Ebeneser, nos Lun, Ebrill 14.

Y Gymdeithas Lenyddol. Cynhaliwyd y swper blyneddol yng Ngwesty Gwêl y Llyn, Llanberis, nos Iau, Ebrill 24. Mr Dafydd Whiteside Thomas, Llanrug, oedd y gŵr gwadd.

Cyfarfod Pregethu. Cynhelir Cyfarfod Pregethu Ebeneser ddydd Sul, Mai 11, am 10.30 o'r gloch a 5 o'r gloch. Y Parchg Bryn Williams, Coleg y Bala, fydd yn gwasanaethu. Bydd croeso cynnes i bawb.



Mae ambell gi yn canu . . . ac ambel un yn nôl y papur newydd . . . ond glywsoch chi am y ci fu'n paentio bws? Wedi gorfod ateb y ffôn roedd y paentiwr a dyna'r ci yn rhoi help llaw . . . neu help cynffon . . . efo'r gwaith!

Y SGWÂR LLANRUG


Crefftwyr gwaith llaw traddodiadol Cerrig o bob math ar gael

Ffôn: (01286) 672898 (dydd) 676285 (nos)

GWYN JONES FFENESTRI ERYRI GARTH ISAF, LLANRUG (01286) 650764

neu W. G. Roberts (Wil Korea) 676741

★ Ffenestri ★ Drysau ★ Drysau Patio



★ Porches
★ Byrddau Ffasia
★ Cladio
★ Conserfateris

12 MLYNEDD O BROFIAD YN Y MAES



J.M. JONES A'I FEIBION

GWAITH CERRIG BEDDAU

Olrhain hanes cyflogwyr presennol yr ardal

K.M.P

Tipyn o ddirgelwch oedd yr enw KMP pan welwyd ef ar fws cyntaf y cwmni ym mis Ionawr 1978. Doedd y ffaith mai Ken Williams oedd pia'r bws ond yn cymhlethu pethau. 'K' am 'Ken', ond beth oedd ail a thrydydd enw'r perchennog?

Mae'n bosib fod y dewis o enw wedi dod ag amlygrwydd sydyn i'r cwmni newydd. Wrth i bobl ddyfalu arwyddocad y tair llythren roeddent yn dod yn fwyfwy cyfarwydd â'r cwmni newydd. Doedd y llythrennau ddim yn cyfeirio at enw'r perchennog o gwbl ond yn hytrach at enwau ei blant, Karen, Maldwyn a Petula.

Mae'r cwmni wedi tyfu'n aruthrol yn ystod yr ugain mlynedd diwethaf. Erbyn hyn mae gan KMP 22 o fysiau a'r rheiny yn dangos yn eglur ddau ran amlwg y busnes: deuddeg bws moethus ar gyfer teithiau pell a'r gweddill ar gyfer gwasanaethau lleol. Cyflogir 36 o weithwyr, yn cynnwys tri mecanic, erbyn hyn. Bydd mwy fyth yn cael eu cyflogi dros dymor yr haf. Ar safle hwylus ar stad Y Glyn yn Llanberis y lleolwyd y cwmni o'r cychwyn. Ken Williams ei hun sy'n dal i redeg y cwmni o ddydd i ddydd. Mae ei wraig, Eryl, yn gweithio yn y swyddfa ac mae Maldwyn wedi bod gyda'r cwmni ers iddo adael yr ysgol ac ef sy'n gofalu am yr holl waith archebu offer a darnau sbâr erbyn hyn. Mae Bobby Lucas o Lanberis a Dafydd Wyn o Ddeiniolen wedi bod gyda'r cwmni ers y dyddiau cynnar.

Bysiau KMP sy'n darparu'r gwasanaeth cyhoeddus rhwng Llanberis a Chaernarfon ers rhagor na deng mlynedd bellach. Ym mis Hydref 1976 y bu i'r gwasanaethau bws gael eu dadreoli gan y Llywodraeth fel bod cwmnïau yn gallu cystadlu â'i gilydd am yr hawl i ddarparu'r gwasanaethau hynny. Cwmni Crosville oedd wedi cynnal y gwasanaeth cyhoeddus rhwng Caernarfon a Llanberis am flynyddoedd lawer cyn hynny. Ond yn dilyn y ddeddfwriaeth newydd gwelwyd bysiau KMP yn darparu gwasanaeth nes bod y cwmni mwy wedi ei ddisodli o fewn ychydig amser.

Un o'r datblygiadau mwyaf allweddol yn natblygiad y cwmni

oedd y penderfyniad i changu trwy gydweithio â chwmni Bus Éireann o'r Iwerddon. Ac ers 1990 mae'r cwmni hwnnw yn rhan o'r grŵp Eurolines sy'n darparu gwasanaeth bws dyddiol rhwng Iwerddon a Phrydain a'r Cyfandir. Mae angen pen fel compiwtr i gadw trefn ar yr holl fynd a dod dros Fôr Iwerddon. Daw dau o fysiau'r cwmni Gwyddelig drosodd i Gaergybi bob bore a bydd gyrrwyr KMP yn mynd i Gaergybi i'w nôl oddi ar y llong a'u gyrru i Lundain. Wedi amser i orffwys yno byddant yn dychwelyd i Gaergybi ac yn rhoi'r bysiau ar y llong. Mae dau fws KMP yn teithio'n ddyddiol i'r Iwerddon hefyd, y naill o Lundain a'r llall o Leeds. Bydd gyrrwyr Bus Éireann yn nôl y rhain oddi ar y cwch ac yn eu gyrru i Ddilyn. Y llynedd byddai'r rhain yn mynd ymlaen i Galway a Westport. Yn yr haf bydd dau fws y dydd yn mynd i Leeds, a hyd at ddeg bws y dydd yn mynd i Lundain ac un bws yn mynd bob dydd i Amsterdam.

Mae lliwiau glas a du bysiau KMP yn drawiadol iawn. Ond nid dyna'r lliwiau o'r cychwyn. Trwy ddamwain (yn llythrennol!) y daeth i fod. Gwyn a llinellau glas arni oedd lliw bws cyntaf y cwmni. Llwyd oedd



un arall o'r bysiau cynnar, ac wedi i hwnnw gael ei daro gan gar roedd angen ei ailbeintio. Roedd i fod i gael ei ailbaentio'n llwyd ond am ryw reswm dewisodd y paentiwr ei baentio'n las i gyd. Ychwanegwyd llinellau du ar ei hochr yn ddiweddarach, a dyna sefydlu lliwiau'r cwmni. Erbyn hyn fodd bynnag mae wyth o'r deg bws moethus yn lliwiau Eurolines, dau yn lliwiau Bus Éireann a dim ond dau yn y glas a'r du cyfarwydd.

Mae bysiau KMP wedi teithio trwy wledydd Ewrop erbyn hyn. Does ryfedd bod rhai o'r bysiau yn teithio cymaint â 300,000km y flwyddyn. Mae hynny, ynghyd â'r ffaith bod Eurolines yn mynnu bod rhaid i'w bysiau fod yn llai na phum mlwydd oed yn golygu nad yw KMP yn cadw'r un o'r bysiau moethus am fwy na phedair neu bum mlynedd. Nid gwaith hawdd yw dod o hyd i fysiau addas yn arbennig o gofio bod rhaid cael bysiau gër awtomatig ar gyfer y gyrrwyr Gwyddelig.

Yn ôl Ken Williams un o'r problemau mwyaf y mae cwmni bysiau yn ei wynebu'r dyddiau yma yw fandaliaeth, gyda difrod yn cael ei achosi i'r bysiau. Mae angen bod

yn ymwybodol iawn hefyd o'r ffordd y mae deddfwriaeth yn effeithio ar y gwasanaethau, megis rheolau'r tachograph, a'r rheol newydd na all bysiau ddefnio'r lôn allanol traffyrdd.

Un cytundeb ddiddorol fu gan KMP ers blynyddoedd yw cludo cefnogwyr Clwb Rygbi'r Gynghrair Wigan. Pan gyrhaeddodd tîm Wigan rownd derfynol Cwpan Her Rygbi'r Gynghrair yn Wembley fe logwyd KMP i gario rhai o'r cefnogwyr. Enillwyd y cwpan ac mae'n rhaid bod y cefnogwyr o'r farn bod KMP wedi dod â lwc i'r tîm gan eu bod wedi cael y cytundeb i'w cludo'n rheolaidd wedyn. Tua diwedd yr 80au a dechrau'r 90au cyrhaeddodd Wigan y rownd derfynol saith neu wyth mlynedd yn olynol, a byddai hyd at chwech o fysiau KMP yn cario'r cefnogwyr i'r gêm.


Diddorol yw nodi bod hen daid i Ken Williams wedi bod yn rhedeg car a cheffyl rhwng Llanrug a Chaernarfon yn y ganrif ddiwethaf. Yn Glan Gors yr oedd ef yn byw, ac yn ogystal â'r car a cheffyl roedd ganddo hers blu. Roedd honno'n dal yno mor ddiweddar â thridegau'r ganrif hon. Gwerthwyd y busnes i deulu DM a brynodd fysiau yn ddiweddarach wrth gwrs. Dechreuodd Ken ei hun yrru bysiau yn ystod cyfnod adeiladu Gorsaf Bwer Trawsfynydd; bu'n gyrru bws y gweithwyr nôl a blaen o Lanberis yn ystod chwe mis olaf y cyfnod adeiladu. Gweithiodd yn fwy diweddar fel plymar ac fel gyrrwr rhan-amser efo bysiau DM ac Eric Morris yn Llanrug cyn iddo fentro sefydlu ei gwmni'i hun. Ers cychwyn KMP mae dros 60 o fysiau gwahanol wedi bod yn eiddo'r cwmni, a chyrhaeddodd y ddau ddiweddaraf yr wythnos hon. Prynowyd y rheiny oddi wrth gwmni arall oedd yn perthyn i Eurolines a hynny'n golygu nad oedd angen mynd i'r drafferth o'u paentio y tro hwn.



Am eich
ANGHENION
ADEILADU
mawr a bach
MASNACHWYR
A "D.I.Y."
am
BRISIAU
CYSTADLEUOL
DEWCH AT

BRYN

(B & K Williams)



Yr Hen Ysgol
Glanmoelyn
LLANRUG

Ffôn: 677482

Royal Victoria Hotel



LLANBERIS



Mae'r gwesty yn darparu ar gyfer Priodasau,
Partïon, Dathliadau ac Achlysuron Arbennig

Cyfleusterau Cynhadleddau a Phwyllgorau

Bwydlen Bar a Chinio Dydd Sul

Cwrw Felin Foel

Ffôn: (01286) 870253

LLANRUG

Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn. Ffôn: (01286) 675384

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed. Ffôn: (01286) 677263

Gwellhad buan i Mrs Blodwen Roberts, Bro Rhyddallt. Bu yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar.

Cydymdeimlwn â Mrs Amy Smith, Mrs Enid Whiteside Thomas a'r teulu oll yn eu profedigaeth o golli eu chwaer, Miss Eirlys Jones.

Cydymdeimlwn hefyd â Mr Ian Pierce a'r teulu oll yn eu profedigaeth o golli ei fam.

Llongyfarchiadau mawr i Elin Dafydd, Stad Bryn Moelyn, unwaith eto wedi cyrraedd y brig yng nghystadleuaeth nofio yng Nghaerdydd. Mae Elin yn ymarfer bob bore yn gynnar iawn pan fo pawb arall yn cysgu; ond mae'r gwaith caled yn dod a chanlyniadau ardderchog iddi. Dyfodol arbennig iawn iti Elin ac hefyd i'r aelodau eraill o Lanrug sy'n perthyn i'r Clwb Nofio. **Ysgol Gynradd Llanrug.** Ffarwelwyd â Miss Awen Griffiths ar ddiwedd tymor y gwanwyn. Pob lwc iddi yn ei swydd newydd yn Ysgol Rhostryfan.

Braf yw cael croesawu Mrs Meinir Williams yn ôl i adran y Babanod. Anfonwn ein cydymdeimlad i Mrs Helen Lewis, gofawraig yr ysgol, yn ei phrofedigaeth.

Llongyfarchiadau i rai o blant yr ysgol sydd wedi bod yn llwyddiannus ym myd chwaraeon yn ddiweddar. Daeth Mari Deiniol, Bl. 2, a Lowri Ann Hughes, Bl. 2, yn gyntaf ac yn ail mewn cystadleuaeth tenis Gwynedd, dan 8 oed. Byddant yn cynrychioli'r sir ym Mae Colwyn yn ystod mis Mai. Pob lwc iddynt.

Bydd lola a Suzanne, Bl. 5, yn teithio i Gaerdydd i gymryd rhan mewn cystadleuaeth gymnasteg, fel aelodau o dim Clwb 'Refail'. Bu Tomos, Dafydd a Huw, Bl. 5, yn cymryd rhan yn swimathon BT yn ddiweddar. Llongyfarchiadau i Eifion Williams, Bl. 6, am wneud mor dda yn Gala Nofio Gogledd Cymru yn ddiweddar. Enillodd dair gwobr gyntaf ac un pedwerydd safle.



Eifion Williams

Bu blynyddoedd 1 a 2 ar daith i Lanystumdwy ar ddiwedd tymor y gwanwyn. Cawsant ddiwrnod diddorol iawn a chael profiad o fywyd plentyn ar ddechrau'r ganrif.

Bu dosbarthiadau 5 a 6 ar ymweliad â Chastell Penrhyn a

Chwarel y Penrhyn fel rhan o'u thema am yr ardal. Astudio Llanrug a'r fro mae disgyblion Bl. 3 a 4 y tymor hwn. Maent wedi ymweld â Stiwdio'r Capel Mawr ac hefyd Eglwys Mihangel Sant.

Cafwyd noson hwyliog iawn yng nghwmni Gwerinos yn ddiweddar yng Ngwesty'r Padarn Lake, Llanberis. Diolch i bawb am gefnogi'r noson ac i aelodau pwyllgor Cymdeithas Ffrindiau'r Ysgol am ei threfnu.

Mae blwyddyn newydd y Clwb 100 ar fin dechrau. Yn 1996-97 roedd yna 137 o aelodau. Drwy gyfrannu £1 y mis rydych yn cefnogi cronfa'r ysgol ac yn cael cyfle i fod yn un o bump rhif lwcus bob mis sy'n ennill y gwobrau ariannol. Mae aelodau y llynedd wedi cyfrannu oddeutu £70 y mis i grohfa'r Ysgol. Diolch yn fawr iawn am eich cefnogaeth. Enillwyr mis Ebrill oedd — £24: Beverley Hughes, 1 Cae Newydd (131); £12: Elin Morus Jones, Ffordd Crawia (117); £10: Mark Pitts, Y Gelli (19); £5: Jamie Stevens, Glan Dŵr (109); £4: Mrs P. Thomas, Glyn Ifor (105).

Merched y Wawr. Cyn ein tywys o amgylch Stiwdio Llun y Felin, Capel Mawr, cydymdeimodd y llywydd, Mair Huws, â Mrs Whiteside Thomas a'r teulu o golli'i chwaer.

Codwyd dros £600 at yr anabl gyda gweithgaredd nodedig a diolchir i bawb a gefnogodd Mrs Beryl Thomas. Cytunodd gwirfoddolwyr o'r gangen i fynd o amgylch y pentref ym mis Awst i gasglu tuag at Ymchwil y Galon. Anfonir ein cofion annwyl at bawb o'r gangen nad ydynt yn dda eu hiechyd ar hyn o bryd.

Yn y Stiwdio cafwyd hanes y fenter fawr o symud o le cyfyng y cwt geifr i'r capel eang yn Llanrug i greu stiwdio hardd gan Dyfan Roberts a'i wraig. Fe'i agorwyd ar 4 Tachwedd gan Dafydd Wigley. Wrth ail-wampio'r capel daethpwyd o hyd i gyfoeth o hanes — megis rhaglen eisteddfod 1920 a gynhaliwyd ar ddyddiau Mercher, lau, Gwener a pnawn a hwyr dydd Sadwrn. Roedd Mrs W. A. Jones, Dalar Deg, yn cofio cystadlu ynddi yn 12 oed. Difyr oedd sylwi cymaint fu dylanwad y rhyfel. Bu'r festri yn ysgol ddyddiol adeg y rhyfel a chanfuwyd llyfr Ifaciwi, Jean Cowdell, 17th June 1941, ynghyd â llyfrau sillafu Saesneg. Storfa yw'r festri bellach.

I fyny'r grisau mae'r dderbynfa, cegin, lolf, ystafell coluro a'r gwisgoedd, gyda lluniau lleol ar y muriau. Gyda diolch i'r fenter mae

swyn yr hen gapel yma o hyd yn y Stiwdio newydd ac wrth fyseddu'r sêd fawr a'r pulpud hardd fe gyfyd hen atgofion o hyd i'r ffyddloniaid gynt. 'Mynydd Grug', sef addasiad o *Te yn y Grug* o waith Kate Roberts sydd ar y gweill yn y Stiwdio ar hyn o bryd.

Dymunir pob llwyddiant i'r fenter. Diolchodd Bethanne i Dyfan am noson ddifyr dros ben.

Diolchiadau

Dymuna Mrs Mair Williams, Bron Haul, Ffordd Glanmoelyn, ddiolch yn fawr iawn i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am eu caredigrwydd tuag ati tra roedd yn yr ysbyty yn ddiweddar.

Dymuna Mrs Megan Pritchard, Golygfa, Stad Bryn Moelyn, ddiolch i'w theulu a'i ffrindiau am y caredigrwydd a dderbyniodd tra bu yn Ysbyty Gwynedd. Diolch yn arbennig i holl staff Ward Gogarth am eu gofal. Gwerthfawrogyd y cyfan yn fawr iawn.

Dymuna teulu y ddiweddar Eirlys Whiteside Jones, Llechwedd, ddatgan eu diolchgarwch diffuant am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth sydyn o golli un annwyl. Diolchir am y cardiau, galwadau ffôn, y lliaws llythyrau a dderbyniwyd yn ogystal â'r rhoddion tuag at Ymchwil y Galon Ysbyty Gwynedd.

Dymuna Mr a Mrs Jim Horman, Venice, Ffordd yr Orsaf, ddiolch i'w teulu a'u ffrindiau am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniasant ar achlysur dathlu eu Priodas Aur. Diolch o galon i bawb.

SEFYDLIAD Y MERCHED

FFAIR WANWYN

NOS WENER, 2 MAI 1997

FESTRI CAPEL BRYNREFAIL

am 6 o'r gloch

RAFFL : PLANHIGION


STONDIN DEISENNAU

STONDIN POTELI

Mynediad:

50c oedolion 30c plant a phensiynwyr

Cyfarfod Ffarwelio. Yn festri Capel y Rhos nos Wener, 14 Mawrth, cynhaliwyd cyfarfod i ddymuno'n dda i Dr Pamela Jones ar ei hymddeoliad ac i ddatgan ein diolch iddi am y ddwy flynedd ar hugain a dreuliodd yn ein mysg fel meddyg teulu. Cyflwynwyd basged o flodau iddi gan Mrs Nansi Roberts fel arwydd o'n gwerthfawrogiad o'i gofal a'i charedigrwydd ar hyd y blynyddoedd. Diolch o galon i bawb a ymunodd â ni ar y noson ac am bob cyfraniad a dderbyniwyd tuag at y rhodd.



Lowri a Mari

Cerrig Beddau

Glanhau y Garreg
ac
Ailbeintio
Llythrennau

Ffoniwch am bris
(01286) 830041

AM DEITHIAU CYFFORDDUS, DIOGEL
A RHAD YM MHYDAIN A THRAMOR ...



**BYSIAU ARFON
LLANRUG**

(Eric Morris)

Ffôn: (01286) 675175 a 677858

MAE'R
SAMARIAID
YN GWRANDO
YN ABBEY ROAD



BANGOR
(01248)
354646

Tlws Peldroed Dan 12 oed

Y Rownd Derfynol, yn Aberystwy

Bydd eu blwyddyn gyntaf yn Ysgol Brynrefail yn gofiadwy i aelodau'r tîm pêl-droed dan 12 oed wedi iddynt ennill Tlws Cyril Rogers mewn rownd derfynol gyffrous yn erbyn Ysgol yr Olchfa, Abertawe. Roedd yn agos i 100 o gefnogwyr yno i weld yr hogia yn sicrhau buddugoliaeth haeddiannol.

Bu'n rhaid i Frynrefail frwydro'n galed wedi i'r Olchfa sgorio'r gôl gyntaf yn gynnar yn y gêm. Roedd cofio iddynt ildio'r gôl gyntaf mewn mwy nag un o'r gemau blaenorol yn sicrhau na fyddai'r hogia yn poeni gormod am y gôl gynnar. Llwyddodd Owain Morris i rwydo'r bêl cyn hanner amser, ond ni chaniatawyd y gôl, am fod y bêl wedi croesi'r llinell gôl cyn cael ei chroesi o'r asgell. Yr Olchfa, felly, oedd ar y blaen erbyn hanner amser.

Yn gynnar yn yr ail hanner bu ond y dim i bethau fynd yn waeth. Rheddodd un o flaenwyr Yr Olchfa heibio i amddiffynwyr Brynrefail a dim ond tacl ardderchog gan Aaron Jones a'i rhwystrodd rhag cael cyfle euraid i sgorio. Byddai ail gôl i'r deheuwr wedi gwneud pethau'n anodd iawn i Frynrefail. Ond yn fuan wedi hynny, daeth tro ar fyd. Pasiwyd y bêl o ganol y cae at Owain, peniodd yntau hi heibio i'r amddiffynwyr, ac ymlaen ag o gan daro'r bêl yn uchel i gefn y rhwyd. O fewn dim roedd wedi sgorio ei ail gôl gan droi yn sydyn a tharo ergyd o gic o ymyl y cwrt cosb i gornel ucha'r gôl. Roedd Brynrefail ar y blaen am y tro cyntaf. A phan ddyfarnwyd cic rydd i Frynrefail ryw 25 llath o flaen gôl Yr Olchfa, dim ond un peth oedd ym mwriad Marcus Orlik — a dyna daran o ergyn yn gwneud y sgôr yn 3-1.

Bu ond y dim i'r Olchfa sgorio yn fuan wedi hynny, ond neidiodd y gôlgeidwad, Dewi Jones, a gwneud arbediad gwych. Daliodd amddiffyn Brynrefail eu tir wedi hynny, ac er i'r Olchfa gael ail gôl ym munud ola'r gêm, roedd y gêm wedi ei hennill!

Llongyfarchiadau mawr i'r hogia ac i'w hyfforddwr a'u hathro, Mr Phil Holland.



'Roeddwn yn teimlo'n dda pan guron ni'r gêm a chael dal y darian. Gwnaeth Owain a fi ddal y darian, ac roedd pawb yn cymeradwyo pan godais y darian.'

Marcus Orlik



'Pan gafodd Marcus Orlik y drydedd gôl roeddwn i'n teimlo fel rhoddodd Mr Holland bedar sub ymlaen a chafodd y tîm arall gôl y gêm wedi ei churo gan Brynrefs.' — Gawn



Ymarfer cyn y gêm a neb yn gallu dal Aaron Jones.

'Roeddwn i'n teimlo fel brenin ar ysgwyddau Jonathan Gordon. Pawb yn hapus ar ôl ennill y darian fawr. Ac edrych ymlaen i gael bâth cynnes ar ôl mynd adref. Gobeithio bydd y tîm yn cario ymlaen i ennill a chwarae fel y gwnaeth ar y diwrnod pwysig.' — Aaron Jones



Dathlu'r drydedd



Hanner amser — a Mr Holland yn dweud y drefn!



Mwy o ymarfer, a llai o wyllo'r camera, hogia!



Y sgorwyr.

'Timlo yn unig am bod Dad ddim ym pan sgoriais y ddwy gôl a dal y darian byth anghofio y teimlad trist a'
Owain Peris Morris

YSGOL BRYNREFAIL 3

YSGOL YR

Ysgolion Cymru

h, Ebrill 19, 1997



edd y gêm yn ein dwylo. Ond yna arall. Ond munudau wedyn roedd Wyn Powell



Dewi'r goli wrth ei fodd.
'Teimladau fel hyn oedd yn mynd trwy fy meddwl. Eisiau chwerthin ac eisiau crio yr un amser. Methu coelio fy mod wedi safio'r gôl bwysig, a'n tîm ni wedi ennill. Teimlo mor falch bod Marcus wedi sgorio gôl bwysig.' — Dewi Jones



bl.

- ★ Roedd 250 o dimau wedi cymryd rhan yn y gystadleuaeth
- ★ Mae Brynrefail yn un o'r ysgolion lleiaf yng Nghymru — mae yna 2,000 o ddisgyblion yn Ysgol yr Olchfa!
- ★ Y tro cyntaf i ysgol o'r Gogledd ennill y Tlws
- ★ Y tîm cyntaf o Frynrefail i ennill cystadleuaeth genedlaethol
- ★ Dim ond un tîm arall o fro Eco'r Wyddfa sydd wedi cipio cwpan genedlaethol.



a, ond yn hapus an i fyny. Wnâi hapus yma.'



'Roeddem yn deimlo'n grêt ar ôl ennill y gêm ac ennill Tarian Cymru. Roedd pawb wrth eu boddau — heblaw'r tîm arall, sef Ysgol yr Olchfa, Abertawe!' — Dafydd Siôn Pritchard

Y Ffordd i'r ffeinal

Rownd 1

Brynrefail 3 Ysgol Eifonydd 1
Marcus Orlik
Jonathan Gordon
Gethin Jones

Rownd 2

Brynrefail 4 Ysgol Botwnnog 2
Marcus Orlik 2
Jonathan Gordon 2

Rownd 3

Ysgol Tywyn 1 Brynrefail 6
Owain Morris 3
Marcus Orlik 2
Gethin Jones

Rownd 4

Brynrefail 6 Ysgol Bryn Elian 4
Owain Morris 3
Marcus Orlik 2
Gethin Jones

Rownd 5

Brynrefail 3 Ysgol Prestatyn 2
Owain Morris 2
Marcus Orlik

Rownd 6

Ysgol Coed y Cae 2 Brynrefail 4
Llanelli Marcus Orlik 2
Owain Morris
Jonathan Gordon

Rownd Gyn-derfynol

Brynrefail 1 Ysgol Y Bettws 1
Marcus Orlik Casnewydd

Brynrefail yn ennill y ciciau cosb 4-2
Marcus Orlik
Owain Morris
Jonathan Gordon
Aaron Watkinson

Rownd Derfynol

Brynrefail 3 Ysgol Yr Olchfa 2
Owain Morris 2 Abertawe
Marcus Orlik

OLCHFA, ABERTAWE 2

LLANBERIS

Gwyneth ac Eifion Roberts, Becws Eryri. Ffôn: 870491

Camera yn ngofal John Pritchard, Cilfynydd. Ffôn: (01286) 872390

Eisteddfod yr Urdd. Dymuniadau gorau i aelodau'r grŵp offerynnol o Adran Llanberis fydd yn cystadlu yn Eisteddfod yr Urdd yn Islwyn ddiwedd y mis. Llongyfarchiadau mawr ar ennill yn yr Eisteddfodau'r Cylch a'r Sir a chyrraedd y Genedlaethol. Aelodau'r grŵp yw Nia Hughes, Gwen Williams, Awen Griffith, Stephanie Welsby, Steven Williams a Mathew Pike.

Ysgol Dolbadarn. Bu'r dosbarth hynaf yn brysus adeg yr ymgyrch 'Comic Relief' ym mis Mawrth, a llwyddwyd i godi £547.27 tuag at yr achos drwy drefnu prawf mathemateg nodedig. Bu plant blwyddyn 5 a 6 yn plannu coed wrth lwybr y Wyddfa ger gorsaf Hebron gyda Mr Ken Jones, Blaen Ddôl, a Mr Ernest Owen. Bu rhai plant yn cymryd rhan mewn gŵyl rygbi yng Nghlwb Rygbi Caernarfon. Trefnwyd prynhawn agored ar gyfer y rhieni yn ystod wythnos gynta'r tymor yn gyfle i drafod gwaith y plant gyda'r athrawon. Mae 11 o blant wedi cychwyn yn yr Ysgol ers gwyliau'r Pasg yn y dosbarth meithrin, ac estynnwn groeso cynnes iddynt atom.

Clwb Ffrindiau. Enillwyr Clwb Ffrindiau Ysgol Dolbadarn am Ebrill oedd: £35 Mrs M. Jones, Dôl Elidir; £25: Mrs N. Jones, 1 Preswylfa; £15: Mrs C. Roberts, Coed y Glyn; £10: Mr W. Allsup, 7 Stryd Ceunant; £5: Mr G. Jones, Stryd y Wyddfa.

Capel Coch. Bu plant yr Ysgol Sul yn cymryd rhan yng Nghymnfa Annibynwyr y cylch a gynhaliwyd yng Nghapel Jerusalem ddydd Sul, Ebrill 20. Roedd yr eitem a gyflwynwyd ar y thema 'Dewis Iesu' wedi ei seilio ar yr Etholiad Cyffredinol sy'n mynnu ein sylw ar hyn o bryd.

Eisteddfod. Bydd yr Eisteddfod yn cael ei chynnal yn Festri Capel Coch, nos Wener, Mai 23, am 6 o'r gloch. Y beirniaid fydd Miss Joan Wyn Hughes (Cerdd) a Mrs Carys Armstrong (Llefaru a Rhyddiaith). Cofiwch anfon y cyfansoddiadau llenyddol at yr ysgrifenyddes, Mrs Heather Jones, 7 Coed y Ddôl, Llanberis, erbyn nos Wener, Mai 2. Dylid rhoi enwau ar gyfer cystadlaethau'r llwyfan i'r Ysgrifennydd erbyn dydd Gwener, Mai 16. Gobeithio caiff yr Eisteddfod

gefnogaeth dda eleni eto. Roedd camgymeriad yn y llinell goll a argraffwyd yn yr Eco y tro diwethaf a dyma'r fersiwn cywir:

*Cawsom addewidion afrad
Gan y pleidiau cyn 'retholiad.
Nawr, a hwythau wedi'u hethol*

Cymanfa. Cynhaliwyd Cymanfa Annibynwyr y cylch yng Nghapel Jerusalem ddydd Sul, Ebrill 20. Roedd plant yr Ysgolion Sul yn cymryd rhan yng nghyfarfod y prynhawn, a chafwyd cyfraniadau graenus gan y dair Ysgol Sul sydd yn y cylch, sef Penisarwaun (Bosra), Deiniolen (Ebeneser a Chefnywaun), a Llanberis (Nant Padarn a Chapel Coch). Llywyddwyd y cyfarfod gan Mrs Falmi Pritchard, Capel Coch. Gwnaeth casgliad tuag at Gronfa Katilau. Trwy'r gronfa hon mae'r Gymanfa yn noddi addysg merch ifanc o Kenya. Yng nghyfarfod yr hwyr arweiniwyd y defosiwn gan Mrs Nancy Jones, Mrs Beryl Ellis a Mr Huw R. Jones a chafwyd eitemau gan Gôr Meibion Dyffryn Peris, dan arweiniad Mr Arwel Jones a'u cyfeilydd Mrs Hefina Jones. Mr Irfon Ellis Jerusalem oedd yr Arweinydd a Mrs Hefina Jones, Jerusalem oedd yr Organyddes yn y ddau gyfarfod a chafwyd canu da dan eu harweiniad.

Llywyddwyd cyfarfod yr hwyr gan y Parchg John Pritchard.

Y Gymdeithas Undebol. Cynhaliwyd cyfarfod ola'r tymor presennol nos Fawrth, Ebrill 8, yn Festri Capel Coch. Cafwyd darlith ddiddorol gan Mr Norman Williams, Brynrefail, ar fywyd y Parchg Tom Nefyn Williams. Diolch am bob cefnogaeth i'r Gymdeithas yn ystod y tymor. Mae pwyllgor wedi ei godi i drefnu rhaglen ar gyfer y tymor nesaf ac edrychir ymlaen at gael yr un gefnogaeth i'r cyfarfodydd bryd hynny.

Cydymdeimlad. Roedd y pentref cyfan dan gwmwl o glywed am farwolaeth Elfed Peris Morris, 2 'Rallt Goch, ddydd Sul y Pasg, Mawrth 30, ac yntau ond 38 mlwydd oed. Cydymdeimlwn yn fawr â'i briod Carys a'u meibion Owain, Rhys ac Iwan; ac â'i rieni Gwilym ac Olwena Morris, 4 Rhys Efrog a'r holl deulu. Brawychwyd pawb oedd yn adnabod Elfed gan sydynrwydd y modd y gafaelodd yr afiechyd ynddo. Wynebodd Elfed y salwch byr ond blin hwnnw gyda dewrder a sirioldeb anghyffredin.

Un o blant Llanberis ydoedd. Cawsai ei fagu yn Limbo, ac yn dilyn eu priodas ymgarfodd ef a Carys yn 'Rallt Goch'. Yr oedd wedi gwneud gyrfa lwyddiannus iddo'i hun gyda Banc y TSB. Cafodd ei ddrychafu'n Rheolwr yng Nghaernarfon ac yn ddiweddarach ym Mangor, gan ennill parch ei gydweithwyr a'i gwsmeriaid. Yma yn Llanberis bu'n aelod o Bwyllgor y

Clwb Pêl-droed ac yn weithiwr brwd dros Ras y Wyddfa o'i chychwyn. Cyn hynny, tra yn yr ysgol, bu'n aelod o dîm pêl-droed Aelwyd Llanberis a enillodd Gwpan Pantyfedwen yn 1976. Yr oedd yn gymeriad annwyl a ffeind; yn ffrind a chymydog da; ac yn llawn hwyl a direidi. Yr oedd ei deulu yn golygu'r cwbl iddo: bu'n unig fab ffyddlon a gofalus i'w rieni, ac yn briod a thad cariadus i Carys a'r hogiau. Roedd ei falchder yn ei blant yn amlwg i bawb a'i hadwaenai, ac un o'r pleserau mwyaf yn ystod y blynyddoedd diwethaf yma oedd gweld yr hogia yn cael hwyl ar gae pêl-droed a rygbi. Dymunwn bob cysur a nerth posibl i'w deulu yn eu hiraeth a'u colled.

Diolch. Dymuna Carys a'r hogia, 'Rallt Goch, a Gwilym ac Olwena, Rhys Efrog, ddiolch o galon yn ddiffuant iawn i'r teulu, ffrindiau a'r cymdogion am bob arwydd o'u cydymdeimlad â hwy yn eu profedigaeth o golli priod, tad a mab annwyl, Elfed. Hefyd am y rhoddion hael tuag at Gronfa Tenovus.

Llongyfarchiadau i Phyllis Jones, Dôl

Elidir, ar achlysur dathlu ei phen-

blwydd yn 60 oed ar 29 Ebrill.

Dymuniadau gorau oddi wrth y teulu

oll.

Capel Jerusalem. Mewn cyfarfod o'r

Gyfeillach a gynhaliwyd ar y 1af o

Ebrill, o dan lwyddiaeth Mr Bert

Thomas, cafwyd sgwrs ddifyr iawn

gan Mr Derek Jones am ei yrfa fel

capelwr ac eglwyswr, ac am ei

brofiad o fod yn 'ddarllenydd' gyda'r

eglwys mewn cylch eang.



Dosbarth Mr Dylan Parry yn dangos y siec ar gyfer Comic Relief.

E. W. Pritchard CENTRAL GARAGE Llanberis

Ffôn: (01286) 870202 a 870272

TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU
GWASANAETH TACSI

GWYNETH ROBERTS

84 Stryd Fawr, Llanberis

Ffôn: 870491

CAFFI 'BWYTY ERYRI'
TEGANAU, CARDIAU
MELYSION
ANRHEGION



Bara Ffres
Teisennau

Priodas, Bedydd
Pen-blwydd ac ati
Peis, Rholiau Sosej

Pasteiod, Teisennau Hufen
Teisennau Plât, Torth Gyrains ac ati

BECWS ERYRI

Stryd Fawr, Llanberis 870491

Diolchwyd iddo gan ddyddio'n dda iddo yn ei waith ac am iechyd i'w gynnal i'r dyfodol. Cafwyd sylwadau pellach gan yr aelodau dros luniaeth ysgafn. Bydd y cyfarfod nesaf ar ddydd Mawrth, 6 Mai, yng ngofal Mrs Bera Griffith a bydd croeso cynnes i bawb i'r cyfarfod.

Cymdeithas Eglwys St Peris a St Padarn. Cynhaliwyd cyfarfod o Gymdeithas yr Eglwys yn St. Padarn, nos Iau, Mawrth 6, dan lywyddiaeth Mrs Ann Parry-Jones. Dechreuwyd fel arfer trwy weddi gyda Mrs Nancy Jones, Stryd Newton yn arwain.

Y wraig wadd y mis yma oedd un o aelodau'r Gymdeithas, sef Mrs Nancy Jones, Taliesin, a chafwyd noson arbennig o ddiddorol yn ei chwmni. Hi yw Swyddog Plant Esgobaeth Bangor, a chafwyd cip ganddi beth mae'r swydd bwysig hon yn ei olygu ym mywyd yr Eglwys yn yr oes sydd ohoni y dyddiau yma. Eglurodd sut yr oedd ei gyrfa ym myd addysg, a'i phrofiad fel prifathrawes yn un o ysgolion Lerpwl am flynyddoedd, yn gymorth iddi i gyflawni ei gwaith.

Trist oedd cofnodi marwolaeth dwy o aelodau'r Gymdeithas yn ystod yr wythnos ddiwethaf, sef Mrs Buddug Jones a Mrs Dilys Phillips, a datganwyd cydymdeimlad yr aelodau a'r teuluoedd yn eu galar a'u colled.

Swyddogion y Gymdeithas oedd yn gyfrifol am y baned a'r raffl a diolchwyd iddynt ac i Mrs Nancy Jones gan Mrs Moreen Lennon a Mrs Ann Parry-Jones. Mr Ralph Jones oedd yr aelod Iwcus y tro yma.

Undeb y Mamau. Cynhaliwyd cyfarfod misol o Undeb y Mamau yn Ffestri Eglwys St. Padarn, brynhawn Mawrth, Ebrill 8. Cymerwyd y gwasanaeth gan y Parchg Emyr Owen a chan na allai ein gŵr gwadd fod yn bresennol cafwyd darlenniadau a chwestiynau gan y Curad. Trafodwyd sawl pwnc am ddigwyddiadau sydd i gymryd lle yn y dyfodol agos ac yn arbennig Gŵyl Deoniaeth Bangor sydd i'w chynnal yn yr Eglwys ar 22 Mai.

Diolchwyd i Mrs Betty Humphreys a Mrs Nan Owen am y te gan Mrs Bet Hughes ac fe eiliwyd y diolch gan Mrs Muriel Morris. Enillydd y raffl oedd Mrs Marjorie Edwards.

Ysgol Feithrin Llanberis. Mae'r Ysgol Feithrin wrthi yn darparu ei chofrestr o blant 2½ oed sydd i fynychu'r Ysgol ym mis Medi 1997. Cysylltwch a'r rhif yma: 871567 i gofrestru ac i sicrhau lle i'ch plentyn.

Enillwyr Raffl y Pasg oedd — 1,

Mary Owen, Dôl Elidir; 2, David Roberts, Euro DPC; 3, Brenda Cole, Euro DPC; 4, Millie, Coed Mawr; 5, Catherine Lloyd; 6, Kate Pritchard.

Gwnaed elw o £91 tuag at gronfa'r Ysgol Feithrin. Diolch yn fawr iawn i bawb am eu cyfraniad a'u cefnogaeth.

Dymunwn yn dda i Anti Jan yn ei gyrfa newydd ym Mangor. Bydd y plant yn ei cholli yn fawr iawn.



Chris Allsup a Gwen Williams a ddewiswyd yn Gadetiadau y Flwyddyn yn Adran Llanberis o Urdd Sant Ioan.

DRAENOG



Roed o'n gynnig rhy dda i'w golli: 'Pâr o trainers Reebok du, seis 9, am ddim ond £29.99'. Dyna anfon amdanynt ar unwaith. Ond y fath siomt pan gyrhaeddodd y sgidiau — seis 9 plentyn!

'MA'R Ysgidia ma'n rhy fach,' medda fo.

'I ANT TO blame,' medda hithau.

Dyweddiad. Llongyfarchiadau i Nicola Baylis ac Edwyn Roberts ar eu dyweddiad. Llongyfarchiadau oddi wrth y ddau deulu.

Diolch. Dymuna Eric a Mairwen Baylis ddiolch i'w teulu a ffrindiau am y llu cardiau, anrhegion, arian a'r blodau hardd a dderbyniwyd ar achlysur eu Priodas Arian. Hefyd mae Eric yn diolch yn fawr iawn am

y cardiau, anrhegion a'r arian a dderbyniodd ar ei ben-blwydd yn 50 oed. Diolch yn fawr i bawb.

Diolch. Dymuna Mrs Olwen Morris, 1 Sgwâr Glynllifon, Y Groeslon, ddiolch yn fawr iawn i bawb am eu caredigrwydd, am lu o gardiau, ymweliadau a galwadau ffôn a gafodd tra ar ei hymwelid ag Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar.

NANT PERIS

Elwyn Searell Jones, Dwyfor. Ffôn: (01286) 870440

Camera yn ngofal John Pritchard, Cilfynydd, Llanberis. Ffôn: 872390



Mr Wil Davies a Mr Stanley Morgan, Cadeirydd a Thrysorydd Pwyllgor Ymryson Cŵn Defaid Nant Peris a'r Cylch, yn cyflwyno sic o £400 i gynrychiolwyr Nyrsus Ardal y Pedwar Plwyf, Dr Huw Roberts, Waunfawr, a Mrs Parry, Y Felinheli. Yn y llun hefyd mae Dr Rogers o gwmni First Hydro a fu'n noddi'r Ymryson.

Rehoboth. Bu rhai o blant y capel yn cymryd rhan yn y Gymanfa a gynhaliwyd yng nghapel Jerusalem, Llanberis, ddydd Sul, Ebrill 20, gyda phlant Ysgol Sul Capel Coch.

Gohebydd: Rydym angen gohebydd pentref yn y Nant. Ni chafwyd ymateb i'r apel a wnaed yn y rhifyn diwethaf. Da chi, cysylltwch â ni ar frys!

EISTEDDFOD LLANBERIS

yn Ffestri Capel Coch Llanberis
nos Wener, 23 Mai 1997
dechreuir am 6 o'r gloch

CYSTADLAETHAU AGORED I FRO'R ECO

Cystadleuaeth Chwarae Piano Agored
(Cwpan Coffa Miss C. Williams, Summer Hill)

Canu i rai dros 15 oed

Llefaru i rai dros 15 oed

Deuawd i rai dros 15 oed

Unawd Werin dros 15 oed

Unawd Emyr dan a thros 50 oed

Côr/Parti Llefaru

Triawd neu Bedwarawd Gwerin (gellir cyfuno unrhyw leisiau a chanu, trefniant o ddewis y parti)

Côr/Parti Canu Agored (2 eitem)

Hunan ddewisiad yw'r cystadlaethau i gyd.

Enwau i'r Ysgrifennydd

Heather Jones (01286) 872569

erbyn 16 Mai 1997

Bistro

LLANBERIS

Ffôn: 871278

PERCHNOGION: DANNY A NERYS ROBERTS

LLE DA I WLEDDA

Beth am Fwffe Enwog Nerys (rhwng 20 - 70) i ddathlu pen-blwydd neu ben-blwydd priodas Parti rhwng 20 a 40. Ffoniwch am fanylion

Cofiwch am nosweithiau arbennig y Bistro
Nos Wener olaf bob mis

BWS BACH AR LOG

Bws 22 sedd ar gael ar gyfer pob math o logi preifat — nosweithiau allan, partiön, triapiau ac ati. Gwasanaeth personol a thelerau rhesymol gan



D. P. OWENS

RHIWLAS

01248-361044

BRYNREFAIL

Mrs Lowri Prys Roberts-Williams, Godre'r Coed. 870580

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263

I'r Ysbyty. Dymunwn yn dda i Mr Wilbert Williams, Marino, fydd yn derbyn triniaeth ar y galon yn ystod y mis yn Ysbyty Manceinion.

Cymdeithas y Chwiorydd. Cyfarfu Cymdeithas y Chwiorydd Eglwys M.C. Brynrefail yn y festri nos lau, Ebrill 10fed dan lywyddiaeth Mrs Verna Jones, Meillionen. Croesawodd bawb yn gynnes i gyfarfod cyntaf y tymor. Roedd y defosiwn dan ofal Mrs Betty Owen, Tros yr Afon. Cyflwynodd y llywydd y wraig wadd am y noson, sef Mrs Anita Long, Tan yr Onnen. Cafwyd ganddi adroddiad diddorol am ei hymwelid â Nepal. Drwy gymorth sleidiau rhoddodd ddarlun byw o daith gerdded dros gyfnod o un diwrnod ar hugain i odre rhai o gopaon uchaf y byd. Diolchwyd iddi gan y llywydd. Paratowyd y baned gan Mrs Jennie A. Roberts, Mrs Bethan Lambert a Miss Amy Lambert.

Bydd y cyfarfod nesaf nos lau, Mai 8fed, pryd y disgwylir Mr Arwel Jones, Penisarwaun, i roi sgwrs.

Dan nawdd y Gymdeithas yn ystod mis Ebrill casglwyd y swm o £70 a'i drosglwyddo i Gyfeisteddfod Chwiorydd Arfon at waith y Genhadaeth.

Sefydliad y Merched. Cynhaliwyd cyfarfod mis Ebrill o'r gangen leol yn y festri nos Lun, Ebrill 21ain dan lywyddiaeth Mrs Pat Jones.

Treuliwyd noson yng nghwmni Mr Bob Williams a Mrs Sarah Anderson, trefnwyr 'Menter Fachwen', yn sôn am eu gwaith. Diolchwyd yn gynnes iddynt am noson ddiddorol gan Mrs Eleanor Williams. Mrs Betty Owen a Mrs Pat Jones oedd yng ngofal y baned ac enillwyd gwobr y mis, rhoddedig gan Mrs Anita Long, gan Mr Bob Williams.

Nos lau, Ebrill 24ain, mynychodd nifer o aelodau'r gangen Gyngor Gwanwyn Sefydliad y Merched ym Mhwlheli.

Cynhelir Ffair Wanwyn o dan nawdd y Sefydliad lleol yn y festri, nos Wener, Mai 2il am 6 o'r gloch. Trefnwyd pob math o stondinau a gweithgareddau ar gyfer y noson. Y tâl mynediad fydd 50c i oedolion a 30c i blant a phensiynwyr.

Eglwys M.C. Brynrefail. Trefn yr oedfaon am fis Mai:

- 4. Cymanfa Dosbarth Padarn yng Nghapel Cysegr (2 a 6)
- 11. Mr J. H. Hughes, Llanberis (5.30)
- 18. Mr Meirion Evans, Lerpwl (5.30)
- 25. Parchg S. O. Hughes, Bethel (10)

Plygu'r Eco. Cofiwch mai tro Brynrefail yw hi i blygu rhifyn Mehefin o'r Eco. Gobeithio y cawn gynrychiolaeth dda o'r pentrefwyr yn y festri, nos lau, Mai 29ain, o 5.30 o'r gloch ymlaen, i wneud y gwaith.

'MEDD ADDYSG' ...

Medd addysg —

'mi ddysgaf iti'r grefft o bwysu botwm'.

Arian byw o grwt

ar blatfform ei feithrinfa

ar ysfa i ddifrodi

yn ei wingo.

Bys bawd yn pwysu botwm,

a'r Hornby'n llithro

cliceti-clic dros y cledrau clau;

rownd a rownd

ar gylch sbageti o daith

dan bontydd lego.

Beiro o biler,

a gwal o flociau'n llechu'n ogof twnnel,

a'r Hornby'n gwibio

i'r dirgelwch du.

Cyflafan yng nghrombil y tywyllwch,

a'r twnnel plastig brau

yn chwalu'n chwilfriw

fel darnau o jig-sô.

A'r arwr o Ddifrodwr

yn rowlio'n orfoleddus

ar blatfform ei feithrinfa;

A Tomos yn sgrap

ar drac

igam-

-ogam

ei dranc.

Medd addysg —

'mi ddysgais iti'r grefft o bwysu botwm'.


SELWYN GRIFFITH

SNOWDON KITCHENS

57 STRYD FAWR
LLANBERIS

(01286) 870555/870443

CEGINAU, TEILS SERAMIG
ANRHEGION



'Dyw cegin SNOWDON KITCHEN yn costio DIM MWY na cheginau'r siopau mawr DIY, ond cymharwch ansawdd ein ceginau ni. Rydym yn cynnig:

- Ceginau cadarn da mewn derw, castanwydden (chestnut) a phîn
- Dewis eang o lamineiddiau modern
- Corff mewn dewis o 8 lliw cydnew
- Droriau a cholynnau cadarn
- Dewis da o wahanol feintiau
- Maint arbennig ar gael os oes angen
- Crefftwy'r lleol yn ymfalchio yn eu gwaith
- Prisiau rhesymol ar gyfer gosod a dodrefnu
- Llythyrau canmol a chwmeriaid bodlon
- Gwerthu gonest, prisiau gonest

HEFYD:GWASANAETH NEWID DRYSAU
A 'WORKTOPS'

AR AGOR SAITH DIWRNOD YR WYTHNOS
FFONIWCHE PETER ROOKE AM BRISIAU A
GWASANAETH CYNLLUNIO DI-DÂL

DAFYDD OWEN TRYDANWR

Pob math
o waith trydanol
a Larwmiau Lladron

Aelod o'r



11 Rhes Faenol
LLANBERIS

Ffôn: (01286) 871680

DRAENOG



Glywsoch chi am y wraig o Lanberis gafodd ei chloi ar ddamwain yn y tŷ gwydr? Roedd ei gŵr yn sgwrsio'n braf yn y tŷ efo'r postman am yr amser da yn y Post yn Neiniolen ac am y pysgod a ddihangodd. Diolch bod saer coed o Ddeiniolen wedi galw heibio a rhyddhau'r wraig druan.

Deall fod teulu o Lanrug wedi cael achos i alw'r heddlu ar frys yn ddiweddar — a hynny yng Nghaerdydd! Cafodd y pen-teulu gryn drafferth i egluro i'r plismyn oedd wedi'i amgylchynu pam roedd allwedd y tŷ yng Nghaerdydd yn ei feddiant; drws y tŷ yn llydan agored ond nad oedd ganddo unrhyw wybodaeth ynglŷn â chod y larwm lladron! A beth am yr eneth ifanc a oedd yn socian o wlyb yn sefyll yn y cyntedd hefo dim ond tywel amdani? Ia, ia! Y ferch? Wedi bod yn nofio tybed? Ydi heddlu Caerdydd yn debyg o goellio'r fath stori?

Gwesty Dolbadarn LLANBERIS Ffôn: 870277



Am groeso cartrefol Cymreig bob amser Aneuryn Jones a'r staff.

Wavell Roberts CIGYDD

London House
LLANRUG

Ffôn: (01286) 673574

PEN CIGYDD Y FRO

Yr ŵyn lleol mwyaf blasus

Selsig cartref

Cigoedd parod i'w bwyta

Archebion ar gyfer y rhewgist

MYNWCH Y GORAU

DEWCH ATOM NI!

WAUNFAWR

Mrs Nan Roberts, Pantafon. Ffôn: (01286) 650570

Camera yn ngofal Heulwen Hughes, Argoed. Ffôn: (01286) 650556



Mr Arthur Newness, Llannerch-y-medd, yn cyflwyno Cwpan Cyngrair Gwynedd i aelodau tîm Bowllo Mat Byr Waunfawr. Bydd y tîm yn cynrychioli Gwynedd yn y gystadleuaeth genedlaethol yn Llanellwedd ym mis Mai.

Llongyfarchiadau i Ieuan Parry, 8 Stad Pant Waun, ar ddod yn fuddugol yng nghystadleuaeth chwarae piano dan 12 oed yn Eisteddfod Cylch yr Urdd, ac am gael cynrychioli cylch Arfon yn yr Eisteddfod Sir ym Mangor.

Dymunwn yn dda i'r parti cân actol fydd yn cystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ddiwedd mis Mai.

Yn yr Ysbyty. Mae Mr Ray Johnston, Tŷ Gwyn a Mr a Mrs Williams, Glaslyn yn yr ysbyty ar hyn o byd. Anfonwn ein cofion cynnes a'n dymuniadau gorau am adferiad iechyd buan i'r tri ohonynt.

Croesawn Nesta Llywelyn, 3 Glyn Afon; Mrs Williams, Cefn Coed; Mrs Dilys Williams, Llys Seibiant; Mrs Doreen Parry, Bro Waun; Miss Nancy Griffith, Tan 'Rallt, a Mrs G. Thomas, Tref Eilian, adref o'r ysbyty. Anfonwn ein cofion at y rhai sy'n wael ac yn gaeth i'w cartrefi.

Cydymdeimlo. Anfonwn pob cydymdeimlad i deulu y ddiweddar Mrs Priscilla Williams, Monfa, Rhes Eilian.

Yn frawychus o sydyn yn ei chartref, 4 Bro Waun, bu farw Mrs Elaine Parry. Cydymdeimlwn yn ddwys â'i phriod, David Parry, a'r plant Brian, Kevin, Clifford a Karen; ac a'i brodyr Mr W. Lewis, Ael-y-bryn a Mr John D. Lewis, Bryn Golau, yn eu profedigaeth drist.

Diolch. Dymuna Robin a Jennie Roberts, 9 Bryn Golau ddiolch i'w holl deulu a ffrindiau am y cardiau, blodau, anrhegion a'r arian a dderbyniasant ar achlysur dathlu eu Priodas Aur. Diolch yn fawr i'chi i gyd.

Diolch. Dymuna Sandra, Bethan a Kevin ddiolch o galon i berthnasau, cyfeillion a chymdogion am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth o golli mam a nain annwyl iwn, sef Mrs Margaret Eluned Lewis, 4 Rhes Eilian. Diolch



Elin Huws a Zöe Evans yn bwydo'r biniau ailgylchu.

arbennig iawn i Feddygfa Waunfawr am eu gofal ohoni ar hyd y blynyddoedd. Diolch am yr holl garidau, blodau a'r llw galwadau ffôn a dderbyniwyd. Diolchir hefyd am y rhoddion tuag at Y Feddygfa.

Apêl. Apeliad at ysgrifenyddion y cymdeithasau ac unigolion sydd a newyddion i'r Eco i ddod a'r deunydd ataf fel y caiff ei gyhoeddi yn yr Eco. **Llongyfarchiadau.** Mewn seremoni wobrwyo'r cyfryngau, a gynhaliwyd yng Nghaerdydd yn ddiweddar, derbyniodd Beca Brown, Gwelfor, sy'n gweithio i'r *Western Mail*, yr anrhydedd o gael ei henwi yn newyddiadurwraig Gymraeg ifanc mwyaf llwyddiannus. Llongyfarchiadau a phob dymuniad da iddi i'r dyfodol.

Apêl. Yn dilyn yr erthygl a'r llun, 'Atgofion am Ysgol y Waunfawr' yn rhifyn Ionawr 1997 o'r Eco fe dderbynias alwad ffôn gan Minnie Griffiths (Gorffwysfa gynt). Mae hi'n awyddus iawn i gysylltu â Mrs Elizabeth Edwards o Drefynnon a anfonodd y llun i'r Eco gan i'r ddwy gael eu magu yn agos iawn i'w gilydd. Gofynnaf yn garedig i Mrs Edwards anfon ei chyfeiriad a'i rhif ffôn i mi, Nan Roberts, Pant Afon, Waunfawr, fel y gallaf innau ei anfon ymlaen i Minnie Griffiths er mwyn iddi gael cysylltu â hen ffrind. Diolch yn fawr.

Tymor yr Arholiadau. Ydi, mae hi'n dymor yr arholiadau allanol unwaith eto yn yr ysgolion a'r colegau. Dymunwn yn dda i bob un sy'n sefyll yr arholiadau eleni.

Priodas. Llongyfarchiadau a'n dymuniadau gorau i Harry a Claire Mainwaring, Tu Ucha'r Ffordd ar eu priodas yn ddiweddar.

Ailgylchu. Agorwyd canolfan

ailgylchu cymunedol cyntaf Gwynedd ym mhentref Waunfawr yn ddiweddar. Fe'i sefydlwyd gan Antur Waunfawr sy'n rhedeg Gwasanaeth Ailgylchu Gwynedd, i gasglu papurau, caniau a defnyddiau, ac fe'i lleolir ger y Ganolfan. Mae Gwasanaeth Ailgylchu Gwynedd yn cael ei redeg mewn partneriaeth â Chyngor Gwynedd ac yn cael ei ariannu gan y Loteri Genedlaethol. Dros y misoedd nesaf bydd canolfannau ailgylchu fel hwn yn cael eu sefydlu mewn nifer o bentrefi'r ardal.

Enillwyr Clwb 300 am fis Mawrth — £40: Mr Haydn Jones, Rhandir Mwyn; £25: Mr T. E. Jones, Cartrefle; £10: Mr J. G. Jones, Nant.

DINORWIG

Glyn Tomos, Pen y Bwlch
Ffôn: (01286) 870576

Genedigaeth. Llongyfarchiadau i Marian a Gareth Griffiths, Bryn Sardis, ar enedigaeth merch fach, chwaer i Catrin.

Gwellhad. Dymunwn wellhad buan i Mrs Margaret Jones, 5 Bro Elidir, sydd wedi derbyn llawdriniaeth yn Ysbyty Walton, Lerpwl, yn ddiweddar. Daliwch ati i wella. Yr un yw ein dymuniadau i Mrs Betty Ll. Roberts, 11 Maes Eilian, sydd wedi bod yn glaf am gyfnod yn ddiweddar yn Ysbyty Glan Clwyd.

Profedigaeth. Cydymdeimlwn yn fawr â Mr Derek Williams, Bron Eilian, yn dilyn marwolaeth ei frawd, Mr John Arfon Williams o'r Felinheli ar y 5ed o Ebrill.

Y Times. Pwy fuasai'n meddwl gweld cyfeiriad am Ddinorwig ym mhapur newydd y *Times* o bobman. Dyna ddigwyddodd yn ddiweddar yn rhifyn dydd Sadwrn, 29 Mawrth. Ysgrifennwyd yr erthygl chwarter tudalen gan Robin Young a fu'n byw ar un adeg, medda fo, yn Penrhiw pan brynodd y bwthyn mewn ocsiwn yn 1966. Nid ef sy'n byw yno mwyach. Mae'n cyfeirio at hanes a phrydferthwch yr ardal ac yn nodi mai'r amser gorau i ymweld â Dinorwig a'r cyffiniau yw yn ystod y gwanwyn. Diolchaf i Mr Neville Williams o Ddeiniolen am roi'r hanes yma i mi.

Arholiadau. Dydi o'n digwydd bob blwyddyn deudwch. Munud mae amser arholiadau'n dod mae'r tywydd yn braf. Beth bynnag pob dymuniad da i bawb sy'n chwysu dysgu ar gyfer yr arholiadau yn ystod y mis neu ddau nesaf.



Harddwch eich cartref gyda

**FFENESTRI
CELTIC** WINDOWS



Sefydlwyd
1980

FFENESTRI • DRYSAU • CONSERFATERIS
CYFLENWYR AWDURDODAU LLEOL

Busnes teuluol gyda blynyddoedd o brofiad
Ffoniwch — 'dio'n costio dim i gael pris

(01286) 678618 (dydd)
(01248) 670081 (nos)



Uned 5, Griffiths Crossing
Llanfair-is-Gaer, Caernarfon



**LLEUFER O. ac N. PRITCHARD
CANOLFAN CARPEDI
WAUNFAWR**

Ffôn/Ffacs: 650291

Ar agor
9-7pm
9-5pm Sadwrn
Ar Gau
Sul a Mercher



Dewis eang
o Welyau a 3P/Suites.

Llenni Venetian a Llenni Roler.
5,000 llathen sgwâr o garpedi
mewn stoc — allwch chi
fforddio prynu o batrymau?

GLANHAU CARPEDI GYDA STIMVAK

GEMINI gan Y Gwalch

(Parhad o'r rhifyn diwethaf o'r Eco)

Yn nharth y ddiod wnaeth y llanciau ddim gwrthwynebu'r awgrymiad. Aethant ymysg y cyrff i chwilota ac ymhen dim yr oeddynt wedi canfod tair wats — un aur — a bu Pollux mor ffodus a darganfod gwrthrych y byddai pawb yn ei ddeisyfu — llawddryll Luger. Yna wrth gamu'n ôl i le clir gwelsant gorff rhyw uchel swyddog a oedd eisoes wedi ei ddiosg o'r rhan fwyaf o'i ddillad a'i esgidiau uchel. Roedd ei got uchaf, a oedd yn cario rhes o fedalau, wedi'i thaflu o'r naill du. Roedd Castor wedi cael ffansi at honno a thafodd hi dros ei siaced Irvin. Yn y modd yma y dychwelasant yn simsan i'w gwersyll plaen eu hunain i fanllefau eu cymdeithion a oeddent erbyn hynny yn cynnwys nifer o fechgyn newydd a gawsant eu hanfon i lenwi bylchau'r colledigion.

Yn fuan wedyn daeth gwybodaeth fod maes awyr ymhellach i mewn yn y tir wedi'i feddiannu gan y fyddin ac fe symudodd y 'squadron' ymlaen yno ar ôl cael sicrwydd ei fod yn ddiogel, ac yr oedd yn newid syfrdanol mewn dull o fyw a phawb yn ymhyfrydu yn y fath foethusrwydd — gwelyau i gysgu'r nos, ystafell fwyd a cheginau yn gysylltiedig, celloedd ymolchi a lle chwaraeon; hyd yn oed sinema ynghyd â'r fendith ychwanegol o 'runways' concrid gwastad di-dwll. Y cwbl yn tystiolaethu fod y gelyn wedi ymadael ar frys gan fod yno gyflenwad o'u offer a'u dillad ac un neu ddwy awyren ddi-fudd yn yr 'hangars'. Yn ogystal â'r pethau yma etifeddwyd hefyd weddillion annisgwyl — merched.

Ni chafwyd gwybodaeth am bresenoldeb y rhain nes yr oedd pawb wedi cyrraedd. Roedd yno gryn hanner dwsin yn trigo yn ôl pob golwg mewn cabannau ar gwr y maes. Yr oedd yn ddarganfyddiad pleserus i'r hogiau gan eu bod wedi eu hamddifadu o'r fath gwmpeini ers tro byd. Ffrancod oeddynt ac yr oedd croeso y rhain hefyd i'w rhyddhawyr yn llygoer. Doedd yna ddim brwdfrydedd, ac eto doedden nhw ddim yn ymddangos yn awyddus i droi cefn ar warchodaeth yr Awyrlu.

Drwy ystumio dwy iaith fe ddeallwyd yn y diwedd eu bod wedi eu gorfodi i ddod yno o'r ardal amgylchynnol i weinyddu ar yr

Almaenwyr, fel glanhawyr a chogyddion a morynion cyffredinol. Roedd y CO mewn peth benbleth beth i'w wneud â hwy, ond yn y diwedd caniatodd iddynt aros dros gyfnod yr argyfwng presennol i roi'r un gwasanaeth a roesant i'r Luftwaffe.

Roedd y peilotiaid yn dal i erlid byddinoedd y gelyn a oeddent yn cilio'n gyflym ac yr oedd Leclerc a'i gatrodau yn nesáu at Paris. Ond collodd y 'squadron' y CO un bore. Roedd ei awyren wedi ei tharo oddi tani nes dinistrio'r offer glanio. Gorfodwyd iddo ddod a hi i mewn drwy ei sgelfrio ar ei bol nes yr oedd yn gwreichioni fel cylllell ar faen llifo, a chipiodd y cocpit ar dân. O ganlyniad cafodd y dyn niweidiau llosg mor ddifrifol nes iddo gael ei anfon yn ei ôl i Loegr — wedi cael 'Blighty' yn ôl y 'jargon'. Ymhen dipyn llanwyd y bwllch gan ei olynydd o rywle arall a chafodd y llysenw y Mochyn Daeaf (The Badger) ar ei union gan fod ganddo streipen o wallt gwyn yng nghanol y du ar draws ei ben. Ac, yn unol â'i ymddygiad, doedd o ddim yn enw anfuddiol.

Tynhawyd y ddisgyblaeth dros nos; beth na ddaeth a fawr o foddhad i Castor a Pollux, ond y symudiad mwyaf amhoblogaidd ar ran y dyn oedd ei benderfyniad i gael gwared â'r merched. Ond fel y datgelodd pethau fe gafodd arbed y drafferth.

Un bore daeth hen lori i'r maes awyr, wedi gallu dod heibio i'r sentris mewn rhyw fodd gyfareddol, ac ohoni daeth chwe gŵr arfog yn cario 'Stens' a phistolau, a golwg fel gwylliaid arnynt. Doedd hynny fawr ryfedd gan eu bod wedi treulio y rhan fwyaf o'r rhyfel yn cael eu hela fel llwynogod digartref o faes i goedlan. Dyma'r tro cyntaf i'r hogiau ddod wyneb yn wyneb â'r 'Maquis'.

Chwilio am y merched yr oeddynt ac er mai Ffrangeg yn unig oedd eu hiaith roedd eu rhesymau yn gwbl amlwg gan eu bod yn defnyddio y gair 'collaboratrices' bron ym mhob brawddeg.

Newydd ddychwelyd o gyrch yr oedd rhai o'r peilotiaid ac nid oedd y CO ar gael ar y pryd, a doedd neb yn sicr sut i drin y sefyllfa, ond fe'i datruswyd ohoni'i hun.

Gwelwyd un o'r merched yn cymryd wib o'r tu ôl i un o'r

'hangars' ac ar draws y 'runway', ond cyn iddi ei chroesi roedd un o'r Maquis wedi troi ei 'Sten' arni hi, ac fe syrthiodd hithau'n swp gwaedlyd ar y concrid. Clywyd sgrechiadau ac yna ymddangosodd y gweddill o'r merched o'r tu ôl i'r 'hangar'. Wnaeth y dynion ddim oedi ond eu hyrddio i mewn i du ôl y lori, neidio i mewn eu hunain a chwynnelli i ffwrdd dros y corff ar y llawr, gan gludo'r merched i dynged na wyddai ond Duw beth.

Casglodd wedyn cryn dwr o ddynion ar ôl iddynt glywed yr ergydion ac yn eu plith y CO, ac yr oedd yn gandryll am nad oedd wedi cael gwybod am yr amgylchiad. Ond doedd waeth iddo geisio taflu ei het yn erbyn y gwynt. Roedd y weithred drosodd mewn ychydig funudau ac wedi gadael pawb yn syfrdan.

I roi i'r dyn ei haeddiant, fe anfonodd ddirprwyaeth i'r pentref agosaf i geisio dod o hyd i rywun a wnelai rhywbeth â'r ferch farw, ond ofer fu'r ymdrech. Os oedd hi'n adnabyddus doedd yna neb a'r awydd i ddangos cysylltiad â hi. Doedd dim dewis felly ond ei chladdu ar frys fel milwr mewn llannerch wrdd y tu allan i'r 'dispersal'. Ond roedd ôl ei gwaed ar y 'runway' o hyd a hynny'n atgoffa'r hogiau o'r digwyddiad anfelus bob tro y byddent yn codi a dychwelyd. Roedd rhai mor ofergoelus nes mynnu ei fod wedi codi 'jinx' gan i'r 'squadron' gael colledion anghyffredin yn y cyfnod hwnnw.

Gyda hynny fe feddiannwyd Paris a cherddodd y Cadfridog de Gaulle i lawr y Champs Elysée gan anwybyddu bwledi'r sneipars Almaenig a oedd yn llechu mewn rhai adeiladau. Symudodd y 'squadron' eilwaith i faes arall a gobeithiai rhai gael rhyddhad i dreulio amser yn y ddinas, ond nid felly y bu. Roedd yn rhaid cadw pwysau cyson ar yr Almaenwyr dihangol ac yr oedd y CO am fynnu cadw eu trwynau ar y maen.

Wnaeth y ffaith honno, fodd bynnag, ddim rhwystro Castor a Pollux rhag datgysylltu yn yr awyr un bore a chyfeirio eu cwrs tua Paris gan ruo yn isel dros y toeau ac o gylch Tŵr Eiffel. Ar eu dychweliad cawsant wŷs i fynd o flaen y 'Badger' a thywalltodd hwnnw ei lysnafedd arnynt yn helaeth ac onibai fod galwadau'r rhyfel mor daer, ac yntau yn brin o beilotiaid proiadol, buasant wedi cael eu llorio.

Yn ystod wythnosau'r hydref symudasant ymlaen o faes i faes, heibio i'r manau cyflafan rheini o

chwerw goffadwriaeth ers rhyfel gynharach: Béthune, Quesnoy, Bapaume, Cambrai, Mons... nes cyrraedd gwlad Belg i gael eu croesawu gan y gaeaf milain hwnnw o rew ac eira, a barodd i'r 'Sabres' fod yn gyndyn o danio yn y boreau serch fod dynion y llawr yn eu diogelu'n nosweithiol â charthenni trymion. Er gwaethaf yr hin roedd y rheini'n gorfod ymgeleddu'r peiriannau ddydd a nos ac nid oedd eu bywyd yn un i genfigennu wrtho o bell ffordd. Ni wyddent 'chwaith pa bryd y deuent o dan gyrch awyrennau'r gelyn. Tua thymor y Nadolig yr oeddent wedi meddiannu maes ar gyrion Liège ar y Meuse a bu'r Wyl, pan gyrhaeddodd, ddim yn brin o ddigwyddiadau.

Daeth rhyw uchel-swyddog i'w gweld o dros y dŵr a doedd ei ymweliad ddim yn un poblogaidd gan fod angen i bawb dwtio ei hun gan wneud eu hamgylchedd yn arwynebol dderbyniol er mwyn rhoi'r argraff orau ar y dyn a'i ddilynwyd. Yn ychwanegol i'r archwiliadau gorfodwyd arnynt i wrando ar araith hirfaith a fu'n ychwaneg o dreth ar ei wrandawyr, yn enwedig y newydd-ddyfodiaid. Ar wahân i'r ddau gyfaill doedd yna ddim ond dynaidd erbyn hynny ar ôl o'r rhai a laniodd yn Normandi ym Mehefin. Ond yr oeddynt i gyd yn hyn a'r llall ac arall yn yr araith, ac yn arwyd heb eu hail, a'u cyfraniad wedi bod o fawr bwys i droi cwrs y rhyfel. (Nid ymhell o'r gwir, ond fuaasai yr un yn cyfaddef hynny.) Yn hytrach roeddent yn credu y dylai'r dyn fod wedi mynd a'i fawlgan i'r mynwentydd a adawsant o'u hôl.

Yn y twymiad hwnnw cafodd Castor a Pollux 'leave'. Diflannodd y ddau gyda'i gilydd i Dduw a wyddai ble. Doedd rhai ddim yn disgwyl eu gweld byth wedyn, ond canfyddwyd eu colli gan fod rhai o'r peilotiaid newydd yn tyngu ar bob gair a ddeuai o'u genau a braidd yn eu harddel fel doethion ac yn credu fod rhyw gyfaredd dieithr yn caniatáu iddynt oroesi mor hir yn y fath swydd.

Beth bynnag, yn eu hôlau y daethant yn dawedog ac, ar yr awr fel y digwyddodd pethau, i gymryd rhan ym mrwydr Nadolig y 'Bulge'.

(I'w barhau)

(Bydd 'Y Gwalch' i'w glywed yn sgwrsio â Beti George ar y rhaglen 'Beti a'i Phobol' ddydd Iau, 8 Mai, ac fe'i ail-ddarlledir y Sul canlynol am 9.30 a.m. — Gol.)

OSMOND SHAW
DEINIOLEN



GWERTHU
- TRWSIO

★ Teledu ★ Fideo
★ Offer Trydan

Gwasanaeth Ffôn 24awr
(01286) 870545

GORSAF BETROL

Esso BERAN

DEINIOLEN

Ffôn: (01286) 871521

Ar agor 7 a.m. — 9 p.m. bob diwrnod

Petrol • Diesel • Nwy Calor • Glo
Cylchgronau • Papurau Newydd
Cardiau Penblwydd • Wyau
Nwyddau Groser • Melysion

TICEDI LOTERI AR WERTH YMA!

ERIC JONES

PENISARWAUN

PEINTIWR

AC ADDURNWR



Joban Dda
am Bris
Rhesymol

Ffôn: 872421

CWM Y GLO

Mrs Iris Rowlands, Glanrafon. Ffôn: (01286) 872275

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263

Capel y Tabernacl. Cynhaliwyd Cymanfa'r Annibynwyr eleni yng Nghapel Jerusalem, Llanberis, gyda chyfarfod y plant yn y prynhawn a'r Gymanfa Ganu yn yr hwyr.

Diolch. Diolch i'r criw bach ddaeth i blygu'r Eco y mis diwethaf a diolch yn arbennig i Delyth am wneud y baned.

Gwellhad Buan. Dyna a ddymunwn i Miss Elizabeth Hughes, Tanygraig, a Mrs Eluned Hughes, Hyfrydle, y ddwy ohonynt yn gleifion yn Ysbyty Gwynedd.

Llongyfarchiadau mawr i mr Llewelyn Hughes, Hyfrydle, fydd yn dathlu ei ben-blwydd yn 90 oed ar y 4ydd o Fai. Cafodd anrheg pen-blwydd arbennig iawn gan y teulu, sef trip ar 'Concord' o Lerpwl i Lundain yng nghwmni Berwyn. Pen-blwydd hapus iawn ichwi oddi wrth y teulu, ffrindiau a chymdogion. Gweler llun o Mr Hughes yn barod i deithio ar Concord.

Llongyfarchiadau i Michelle ac Alan, Y Groeslon, ar enedigaeth mab bach, Cameron; hefyd i Michelle a Chris, Brynffynnon ar enedigaeth merch fach, Alana.

Diolch. Dymuna Idwal a Mair Williams, Elidir View, ddiolch o galon i'w teulu, cymdogion, ffrindiau pell ac agos ac yn arbennig i'r plant am y llu cardiau a'r anrhegion a dderbyniasant ar achlysur dathlu eu Priodas Aur.

Diolch. Yn ystod mis Mawrth cynhaliwyd noson o Bingo yn Ysgol Gymuned Cwm-y-glo gyda'r elw tuag at gronfa Cancr a Leukaemia mewn plant yng Ngwynedd. Carwn ddiolch o galon i bawb a gynorthwyodd mewn unrhyw fodd i wneud y noson yn un mor lwyddiannus. Gwnaed elw o £3,268 trwy werthu raffl a chwarae bingo. Diolch o galon i bawb am bob cefnogaeth.

Cymdeithas Rhieni ac Athrawon Ysgol Cwm-y-glo. Dymuna'r Gymdeithas ddiolch o galon i bawb am eu cefnogaeth ar noson y Ffair Wanwyn a gynhaliwyd yn yr Ysgol ar Ebrill 11eg. Mawr ddiolch am y rhoddion raffl a diolch i'r plant a fu'n cystadlu yn y gwahanol gystadlaethau. Cawsom noson brysur a hwyliog iawn gydag elw o £340 i'r Ysgol.

Enillwyr y raffl oedd — Nathan

Millington; Sion Arfon; 872001; Anti Margaret; Beryl; 59 Maes Gerddi; Alison Parry; 4 Dôl Afon; Catherine Jones; 870928; Ann Ysgol Feithrin; P.T.; Diana, Llanberis; Ceri Ann; Rita; Enid, Cwm.

Buddugwyr addurno'r wyau oedd — Bl. 5 a 6: 1, Sarah Weir; 2, Ceri Bryn Morris; Bl. 3 a 4: 1, Leanne Owen; 2, Craig Jones; Babanod: 1, Chelsey Jones; 2, Gafin Foulkes. Cardiau Pasg — Bl. 5 a 6: 1, Rachel Owen; 2, Sarah Weir; Bl. 3 a 4: 1, Andrew Jones; 2, Alwyn Day; Babanod: 1, Siôn Arfon; 2, Sarah Jones; Ysgol Feithrin: 1, Gethin Jones. Addurno Het: 1, Mared Morris. Diolch i Heather Lowe ac Elaine o'r Frican am feirniadu'r cystadlaethau.

Newyddion o'r Ysgol. Cynhaliwyd Ffair Wanwyn arbennig o lwyddiannus ar nos Fercher, Ebrill 11. Diolch i'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon am ofalu am y trefniadau. Codwyd £350 a charem ddiolch o galon i bawb gefnogodd y noson a'r rhai

gyfrannodd wobrau i'r rafflau.

Daeth Elaine o'r Frican draw i feirniadu'r hetiau a addurnwyd. Dyfarnwyd y wobwr i Mared Morris. Cafwyd cystadlaethau cynllunio cardiau Pasg ac addurno wyau hefyd. Llongyfarchiadau i'r holl enillwyr.

Cynhaliwyd cystadleuaeth cynllunio cerdyn Nadolig 1997, dan nawdd gwestai grŵp Virgin, i holl ysgolion Arfon. Geraint Roberts, Bl. 5 o'r ysgol hon oedd yn fuddugol. Gwobr Geraint oedd ciniod dydd Sul i'r teulu yng Ngwesty Seiont Manor. Erbyn hyn mae'r cerdyn yn cael ei feirniadu eto yn Llundain. Pob lwc yn y rownd nesaf Geraint.

Croeso mawr i Chloe Mererid a anwyd ar Sadwrn y Pasg. Mae Ceri Ann wrth ei bodd gyda'i chwaer fach newydd.

Brysiwch wella Mrs Orritt — gobeithio eich bod yn teimlo'n well erbyn hyn ac y byddwch yn ôl yn y gegin yn fuan. Hefyd mae Mrs Rhian Jones ein gofalwraig adref yn sâl ar hyn o bryd. Brysiwch chwithau i wella Mrs Jones.

Enillwyr Clwb yr Ysgol am fis Mawrth oedd Mrs Nancy Jones a Mrs Diana Pritchard — y ddwy o Lanberis. Llongyfarchiadau i'r ddwy ohonoch.

TAN Y COED

Anwen Parry, Ael y Bryn
Ffôn: (01286) 872276

Diolch. Dymuna Mrs Nancy Morris, Awelfryn, ddiolch o galon i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am y caredigrwydd a dderbyniodd tra yn ysbytai Gwynedd ac Eryri, ac ar ôl iddi ddod adref. Diolch am y llu cardiau, y galwadau ffôn a'r ymweliadau.

CEUNANT

Trystan a Sioned Larsen
Bodafon. Ffôn: (01286) 650799

Croeso i Derlwyn, Joanne a Tomos i Bryn Berllan, Ceunant. Pob hapusrwydd i chwi yma yn ein mysg. **Pob hwyl** i Julie, Rhos y Grug, yn ei swydd newwydd gyda chwmni Jones Peckover ym Mangor, a llongyfarchiadau hefyd i'w merch, Siân, am lwyddo yn ei phrawf gyrru yn ddiweddar.

Cefnogwch ein
Hysbysebwyrr



Siopwr sy'n aelod o'r côr meibion lleol glywodd bod y Blaid Lafur am gynnal cyfarfod ar lannau Llyn Padarn — ond cafodd ddrafferth cofio enw'r graig.



**ORIEL
CWM**
Cwm y Glo

Ffôn/Ffacs: (01286) 870882

Gwasanaeth Fframio
Lluniau o bob math
ar gael ar y safle
Prisiau Rhesymol

Arddangosfa
o luniau gwreiddiol
gan Artistiaid Lleol
Richard S. Humphreys

I drin a thrwsio
pob math o
beriannau gwnïo
**MENAI SEWING
MACHINE CENTRE**

**40 Stryd Fawr
PORTHAETHWY**
Ffôn: (01248)
714043 neu
(01286) 674520
Edau, Nodwyddau
ac ati mewn stoc

FFENESTRI PADARN
FFENESTRI A DRYSAU uPVC

Cynnig 1: 3 FFENEST WEDI EU
FFITIO AM **£600**

Cynnig 2: 5 FFENEST WEDI EU
FFITIO AM **£895**

Cynnig 3: 7 FFENEST WEDI EU
FFITIO AM **£1,295**



(01286) 871774

YSGOL BRYNREFAIL

Clwb Cyfeillion Ysgol Brynrefail. Enillwyr y Clwb Cant yn ddiweddar. Ionawr — £7: S. W. Robinson, Bethel; £4.20: R. V. Parry, Bethel; £2.80: J. B. Jones, Deiniolen. Chwefror — £8.25: E. C. Baylis, Nant Peris; £4.95: V. Simons, Llanrug; £3.30: M. B. Garnett, Bethel. Mawrth — £8.50: S. W. Robinson, Bethel; £5.10: R. V. Parry, Bethel; £3.40: E. Williams, Bethel.

Os hoffech ymuno â'r Clwb 100 cysylltwch â'r Ysgol neu cysyllter â Pat Jones (01286) 674372). Cofiwch fod aelodaeth y Clwb yn agored i **bawb** — rhieni, neiniau, teidiau a chyfeillion. Mae croeso i unrhyw un ymuno.

W.J. GRIFFITH

PLYMAR A GOSODWR
GWRES CANALOG

Pant Tirlon, Llanrug
Ffôn: (01286) 673248

Gosodwr
Nwy
Cofrestredig
Corgi



Aelod o'r
Association
of Mechanical
Services
Contractors

Dim un dasg rhy fychan
Dim un dasg rhy fawr

**IEUAN
WILLIAMS**
Glanffrwd
DEINIOLEN
(01286) 870484

- ★ Bysiau o 12 i 53 sedd
- ★ Teithiau Lleol a Thramor
- ★ Gwaith Contract
- ★ Telerau arbennig i bensiynwyr, myfyrwyr a phlant ysgol.

SIOP GIG NEWYDD

Bydd haneswyr y dyfodol yn siŵr o gofnodi datblygiad yr adeilad bychan carreg yng nghesail Ysgol Gynradd Bethel. Am nifer o flynyddoedd dyma gwt hers y pentref. Yna datblygodd yn siop sglodion. Erbyn hyn mae gŵr busnes lleol, William Davies, wedi agor siop gig yno. Mae hyn wedi galluogi Mr Davies i gael man canolog ar gyfer ei fusnes. Yn ystod y flwyddyn diwethaf bu fen 'Cig Bethel' yn gwerthu cigoedd o bob math yn yr ardal, gan gyflenwi gwestai a busnesau yn ogystal â chartrefi. Ceisiwyd cyfranu at yr economi lleol trwy brynu cig oddi wrth ffermwyr lleol. Daeth y paciau cig a ddarperir ar gyfer y rhewgell yn hynod o boblogaidd.

Mae Wil yn fodolion iawn â'r gefnogaeth a dderbyniodd yn ystod wythnosau cyntaf y siop



newydd. Gobeithio deil y busnes i ffynnu.

Yng ngwt elor, mae'r gorlan — o gigoedd
I gegau pob anian;
Cig y 'du' yn llu i'r llan,
Yn y 'chippy' ceir chopan.

R.L.J.

CAE CHWARAE . . . MEWN BLWYDDYN

Bydd yn rhaid disgwyl blwyddyn arall nes bydd cae chwarae yn ailagor yn Llanberis. Cauwyd y cae chwarae ar hen safle'r gwaith nwy yn Stryd Turner rai misoedd yn ôl oherwydd bod llygredd wedi ei ddarganfod yn y pridd. Ers hynny bu peth pryder yn lleol ynglŷn â dyfodol y safle, gyda rhai'n ofni a fyddai'r cae chwarae yn dod nôl ai peidio. Mae Cyngor Gwynedd yn gobeithio y bydd y gwaith angenrheidiol i glirio a glanhau'r safle yn cael ei

wneud rhwng Medi a Thachwedd eleni. Ond bydd raid aros tan gwanwyn 1998 i ailhadu'r cae chwarae. Mae'n dda deall bod y maes chwarae i gael ei ailagor, ond gresyn bod y gwaith o wneud arolwg o'r safle a llunio rhaglen waith yn cymryd cymaint o amser.

DRAENOG



Campus fu ar y campws, — y Sadwrn
Ein Seindorf enillws,
A dyn y Dafarn Datws
A'r bois aeth ar y 'booze'.

Cwrw da yf y Cardi — mae'n cyrraedd
Y cyrion fel whiskey,
Llwyddo wnaeth ein Llywydd ni
I landio dan Leylandii.

DRAENOG



Do, bu ar ei gwyliau yn yr Alban ac Iwerddon; a dyma hi'n breuddwydio am roi lluniau o'i ffrindiau'n cysgu i ofal Draenog! Ond mae gan Draenog berthnasau yn ardal pabur bro'r Wylan hefyd, ac oddi yno y daeth llun y prif gysgudur! Efallai iddi ddrachtio hefyd o'r ddiod Wyddelig anwyddogol a werthwyd i griw'r bws ac a greodd gryn bryder i amryw wrth ei gario trwy'r tollau!

Cefnogwch ein Hysbysebwy

Cyngerdd Blynyddol Seindorf Arian Deiniolen

yn y Mynydd Gwefru, Llanberis

nos Wener, 16 Mai 1997

am 7 o'r gloch

Cyflwynydd:

BETHAN JONES-PARRY

Artistiaid:

Y SEINDORF :: SIÂN GRIFFITH (Tenor Horn)

LLEISIAU BRO OGWEN

Mynediad: £1.50 trwy docyn, neu £2 ar y noson

BWS AM DDIM O DDEINIOLEN AM 6.30 O'R GLOCH

ANTUR



WAUNFAWR

GARDD LYSIAU

ANTUR

WAUNFAWR

Mae gennym ddewis helaeth o blanhigion da iawn y mis hwn.

BARGEN Y MIS:

PLANHIGION TOMATOS AM 60c YR UN!

Hefyd bydd rhai llysiau ar werth yn ystod mis Mai. Galwch draw.

HEFYD AR WERTH YN ANTUR WAUNFAWR:

Nwyddau a slabiau concrid, pob math o ddodrefn pren i'r ardd, jamiau a siwti cartref, basgedi blociau sych, a llawer mwy. Ymgymernwch â gwaith creu pyllau, gerddi cerrig, ffensio, mân waith adeiladu, gwaith cynnal a chadw, a thorri gwellt.

DEWCH AM DRO O GWMPAS EIN PARC NATUR

Ar agor Llun i Gwener 9 a.m. tan 4 p.m. Ffôn: (01286) 650721

R. M. (DIC) PARRY

PEINTIWR AC ADDURNWR
PRISIAU RHESYMOL

TAWELFA, PENISARWAUN


Ffôn: (01286) 870846



ALOE VERA

Am well iechyd yn naturiol, profiwyd nerth ALOE VERA. Canfuwyd iddo roi esmwythâd i lawer sy'n dioddef o afiechydon cyffredin fel:- Cryd y Cymalau, Mygdod, Dŵr Poeth, I.B.S., Afiechydon y Croen, Diffyg Egri Afiechydon yr Arennau, Pwysau Gwaed a.y.y.b. am fwy o fanylion, cysylltwch ag Alun, Ffôn: (01248) 670746

CROESAIR MAI



Bydd o leiaf bedair 1 ar draws, sef 5 a 22 ar draws, 4 a 21 i lawr wedi addo'r byd i chi am eich cefnogaeth cyn y byddwch chi'n darllen y cliwiau sy'n dilyn (rwy'n ymddiheuro am 25 ar draws ymlaen llaw!).

AR DRAWS

1. Cymdeithas o bobl o'r un gredo wleidyddol (5)
4. Lliw 21 i lawr (3)
5. 1 ar draws ein Dafydd ni (5)
8. Adeiladu grât dima a'i chysylltu â'r theatr (8)
9. Y ferch a welir yn llwybr Endaf (6)
10. Pwysigrwydd (9)
11. Lliw y car (5)
12. I degan ddur wedi torri; mae wedi ei harddu (9)
15. Yn methu gweld (3)
17. Ieithydd oedd yr un o Aberdaron (3)
19. Meilir sâl, y blodyn! (5,4)
21. Tywel (5)
22. 1 ar draws sydd â thuedd i fod yn hael (9)
24. Rwy'n cofleidio merch o ardal Manceinion, ac wele, merch arall! (6)
25. Y rheswm pam fod dyn o Gaernarfon yn gwisgo sbecoll! I weld eog? (1,2,5) Sor!l
26. Dyfais sy'n 'gweld' pethau o

- bell, o bob cyfeiriad (5)
27. Adeilad uchaf Babel (3)
28. Diddorol danddi, diddorol (5)

I LAWR

1. Un wedi ymuno â thriawd y mis diwethaf (9)
2. Yr hyn sy'n llenwi'r ysgyfaint (7)
3. Un 4 ar draws baner 5 ar draws (5)
4. Yr 1 a draws sydd eisiau cadw'r drefn bresennol (9)
5. Rhai sy'n ymbilio (9)
6. O Medwyn; merched? (7)
7. Llefain yn uchel (5)
13. Yr hyn sy'n dilyn y diwrnod byrraf. Dyna hwyll! (5,4)
14. Gafr ddel go anrhefnus; mae'n gwyro (9)
16. Afanc (9)
18. Wedi llosgi, fel torth wedi ei gor-bobi (7)
20. Pendefig o radd is na dug (7)
21. Yr 1 ar draws sy'n cynrychioli'r gweithiwr (5)
23. Tôn gron (5)

ATEBION CROESAIR MIS EBRILL

Doedd ond pump allan o'r pymtheg ymateb a dderbynais i groesair mis Ebrill yn gywir, a hynny oherwydd fod tri o'r cliwiau ychydig yn amwys.

DEILEN oeddwn i'n chwilio amdano yn 9 ar draws a MIOD yw'r gacen offrrwm yn 1 i lawr — mae MINT a TEISEN felly yn anghywir, ac rwy'n methu'n lân a deall y rhesymeg y tu ôl i DI-IAWN!

PRIOD, ac nid FFRIND yw'r ateb i 15 ar draws ac fe gynhwysais y gair 'neilltuol' yn y cliw i'ch arwain ato.

Mary Davies, Waunfawr; Ceridwen Williams, Llanrug; Ellen Pritchard, Garndolbenmaen; Ceridwen Williams, Bethel ac Enid Jones, Bryn Celli, Tal-y-sarn yw'r pump sy'n gywir, ac i Dal-y-sarn yr â gwobr y mis yma. Llongyfarchiadau ichi, Enid Jones.



Mae gen i dipyn o gywilydd o'r ateb i 25 ar draws yng nghroesair y mis yma, ond rwyf wedi ceisio ei wneud cyn hawsed â phosib. Os oes gair 8 llythyren yn ffitio fe hoffwyd wybod beth ydi o!

Anfonwch eich atebion i gyrraedd Dafydd Evans, Sycharth, Penisarwaun, Caernarfon, erbyn 23 Mai, os gwelwch yn dda.

DYDDIADUR MIS MAI

1. Iau **DEINIOLEN:** Cyfarfod y Chwiorydd am 2 o'r gloch yn Festri Ebeneser.
2. Gwener **BRYNREFAIL:** Ffair Wanwyn Sefydliad y Merched am 6 o'r gloch.
4. Sul **BETHEL a'r ARDAL:** Cymanfa Ysgolion Sul Dosbarth Padarn am 2 ac am 6 o'r gloch yng Nghapel Cysegr.
6. Mawrth **PENISARWAUN:** Cyfarfod Blynyddol Cyngor Cymuned Llanddeiniolen yn yr Ysgol am 7.15 o'r gloch.
LLANBERIS: Y Gyfeillach yng Nghapel Jerusalem am 2 o'r gloch.
8. Iau **BRYNREFAIL:** Cymdeithas y Chwiorydd gyda Mr Arwel Jones.
10. Sadwrn **YR ARDAL:** Gŵyl Wanwyn Merched y Wawr.
11. Sul **DEINIOLEN:** Cyfarfod Pregethu Capel Ebeneser am 10.30 a 5 o'r gloch.
12. Llun **DEINIOLEN:** Y Cyngor Eglwys yn cyfarfod yng Nghapel Libanus ar ddechrau Wythnos Cymorth Cristnogol.
13. Mawrth **LLANRUG:** Merched y Wawr — Cyfarfod Blynyddol a 'Cwilio' gyda Julie Jones.
14. Mercher **BETHEL:** Merched y Wawr gyda Wendy o 'Body Talk'.
22. Iau **LLANBERIS:** Gŵyl Ddeoniaeth Bangor yn Eglwys Sant Padarn.
23. Gwener **LLANRUG:** Plaid Cymru — Helfa Drysor.
29. Iau **BRYNREFAIL:** Plygu *Eco'r Wyddfa* yn y Festri o 5.30 o'r gloch ymlaen.

RHODDION

£13: Mrs A. Wilson Evans, Blaenau Ffestiniog.
£10: Mr W. A. Jones, Poole; Mrs A. Sidebotham, Whalley Bridge; Mr a Mrs G. Ellis, Drws y Coed, Bethel.
£8: Mr P. W. Williams Corby.
£5: Mrs G. McCarthy, Lerpwl; Mrs J. Williams, Morfa Bychan; Mrs Mair Williams, Bron Haul, Llanrug; Mrs Megan Pritchard, Golygfa, Llanrug; Robin a Jennie Roberts, 9 Bryn Golau, Waunfawr; Mrws Mary Price, Porth y Gogledd, Deiniolen; Mrs Priscilla Williams, Wylfa, Deiniolen; Di-enw Penisarwaun; Carys Morris a'r hogia, 2 'Rallt Goch Ceunant, Llanberis.
£3: Mr R. W. Roberts, Blaenau Ffestiniog; Miss M. Griffith, Bangor; Miss H. Evans-Munro, Corby; Mrs N. Owen, Llanfair-

fechan; Mrs B. Williams, Bishop Auckland; Mr a Mrs O. Jones, Llangefni; Mrs Mair Parry, Llanllyfni; Mrs L. P. Lee, Morfa Bychan; Mr M. Owen, Lewisham; Mr Alun Williams, Waunfawr; Di-enw; Mr E. Rowlands, Childer Thornton; Mrs Alvona Jones, Prestatyn; Mrs Ceinwen Closs Evans, Porthcawl; Di-enw; Amy W. Smith, Llechwedd, Llanrug; Enid W. Thomas, Dolwar, Llanrug; Mr a Mrs Horman, Venice, Llanrug; Mrs Olwen Morris, 1 Sgwâr Glynllifon, Y Groeslon; Mr a Mrs Gwilym Searell Jone, Nant Peris.
£2: Dafydd Wyn a Helen, 3 Rhydfadog, Deiniolen; Eric a Mairwen Baylis, Anfield, Llanberis; Mrs M. G. Williams, Bethel gynt; Di-enw.
£1: Mr Frank Youd, 30 Rhydfadog, Deiniolen.
50c: Mrs M. E. Edwards, Stone.

CERBYDAU CLASUROL YR WYDDFA



Cyrhaeddwch mewn steil — mewn cerbyd *Rolls Royce* ar gyfer priodasau, penblwyddi ac achlysuron arbennig eraill

Dylan Griffith, Tros-y-Waen, Penisarwaun
Ffôn: (01286) 871833

GARTH MAELOG

PET CENTRE AND GROOMING SALON

Bwyd ac anghenion
Anifeiliaid anwes bychan
Pysgod dŵr oer
Offer pysgota




Molchi, cribo a chlipio
cŵn a chathod
o bob math
gan arbenigwyr

STRYD FAWR, LLANBERIS 870840

★ Tacsï

★ Maes Awyr



Yfwch chi
Gyrrwn ni!


Ffôn: 871049/symudol 0831 429970
neu ffoniwch ni am ddim ar
National Cabline — Freephone 0800-123-444

CHWARAEON

26 MILLTIR — AC EISIAU MYND ETO!

'Mi ddechreuaf fory,' yw cri llawer ohonom — yn enwedig efo cadw'n heini. Rwy'n eiddigeddus iawn o'r rhai sy'n ei chael yn hawdd gwisgo'r trowsus bach a dechrau rhedeg. Un o'r brid yma yw Gwilym Williams. Wedi blynyddoedd ar yr asgell dde i dîm pêl-droed Llanberis a chwarae criced dros Fron Dinas mae erbyn hyn yn gwneud ei farc yn y byd rhedeg traws-gwlad. Yn ddiweddar cyflawnodd un uchelgais trwy gystadlu ym Marathon Llundain. Un o'r 'fun-runners' oedd Gwil, ond doedd y ras fawr o hwyl. Mae bod yn un o'r 26,000 sy'n cystadlu yn wefr ynddi'i hun, a'r cystadleuwyr yn barod iawn i annog a helpu ei gilydd. Cystadlu yn eu herbyn eu hunain y mae llawer. Nid ar chwarae bach y mae rhedeg 26 milltir am y tro cyntaf. Roedd Gwil wedi rhedeg sawl hanner-marathon, ond dyma'r ymgais gyntaf dros y pellter llawn. Bu'n rhaid i Gwil, sy'n aelod o Glwb Rhedwyr Eryri, baratoi'n drylwyr. Cymerodd ran mewn 30 ras yn 1996. Bu'n rhedeg bum noson yr wythnos cyn y marathon, gan ddechrau efo 40 milltir yr wythnos a chyrraedd 70 milltir yr wythnos. Cred Gwil bod lonydd bro'r Eco yn ddelfrydol ar gyfer ymarfer, a phob g allt yn help i fagu stamina. Cwblhaodd Gwil y ras mewn 3 awr 27 munud — tipyn o gamp i ddyn hanner cant oed. Ond mae Gwil yn benderfynol o gael blas o gwmnïaeth ac awyrgylch arbennig y dydd trwy redeg y ras eto.

Gyda llaw, roedd rheswm arall dros gystadlu, sef codi arian i Gronfa



Steffan Price Jones. Nid yw'r arian i gyd wedi dod i law eto, ond hoffai Gwil ddiolch i bawb am eu caredigrwydd a'u cefnogaeth i'r

Bu Iona Williams o Lanrug ar grwydr eto gyda tîm pêl-droed merched Cymru. Chwaraeodd i'r tîm dan 16 oed ym Mhencampwriaethau

CAP ARALL IONA

Prydain yn Glasgow. Chwaraewyd yn erbyn yr Alban ac yn erbyn Iwerddon. Curwyd y Gwyddelod o 2-0 ond collwyd o 4-0 yn erbyn yr Alban. Mae pêl-droed merched wedi datblygu i gryn safon yn y wlad honno. Mae Iona yn chwaraewraig amryddawn, a chwaraeodd yng nghanol y cae yn y gêm gyntaf ac yn yr amddiffyn yn yr ail. Oherwydd ei hoedran — a'i safon — mae'n debyg y bydd Iona yn y tîm eto y tymor nesaf.

Mae'r deunydd crai yma

Rydym i gyd yn ymfalchio yng nghamp aruthrol tîm pêl-droed dan 12 oed Ysgol Brynrefail. Teg yw nodi bod tîm Ysgol Friars yn cystadlu am y tlws dan 14 oed a tîm Ysgol Syr Huw Owen am y tlws dan 16 oed yr un diwrnod. Tair ysgol o fewn tafliad carreg i'w gilydd yn cyrraedd y brig. Er mai ond Brynrefail oedd yn fuddugol mae'n amlwg bod y deunydd crai ar gael yn lleol. Onid oes dyletswydd rwan i glybiau Dinas Bangor a Chaernarfon sefydlu trefn fyddai'n galluogi'r bechgyn hyn i weithio eu ffordd drwodd i'r timau o fewn ychydig flynyddoedd? Ynteu ai parhau efo'r 'sgowsars' fydd eu hanes?

Ydi'r newidiadau'n plesio tybed?

Bu cryn drafod y misoedd diwethaf yma am y newidiadau a wnaed ar Radio Cymru. Rhai yn dweud bod y gwasanaeth wedi'i Seisnigeiddio, eraill yn dweud bod gormod o ddarparu ar gyfer yr ifanc drwy'r holl ganu pop. Yn fwy diweddar gwnaed newidiadau gan yr Adran Chwaraeon (sydd wedi gwneud gwaith arloesol mewn mwy nag un cyfeiriad dros y blynyddoedd trwy ddatblygu iaith a chwalu'r mur rhwng rygbi a pêl-droed). Yn anffodus bu'n rhaid colli 'Byd y Bêl' a fu'n boblogaidd iawn. Diolch byth caed gwared â'r hen drefn a oedd yn ofni unrhyw feirniadaeth, yn arbennig o Undeb Rygbi Cymru. Mae patrwm prawn Sadwr ar Radio Cymru wedi newid, a 'Chwaraeon' eisoes yn boblogaidd iawn, ond rwan daeth rhaglen gydag elfen mwy lleol. Mae Cymru wedi ei rhannu'n dair — De, Gorllewin (sy'n anffodus yn cynnwys Pen Llŷn) a'r Gogledd. Am ryw ugain munud bob awr bydd y rhanbarthau yn eithrio o'r gwasanaeth cenedlaethol. Canol-bwyntir ar brif gemau ein hardal yn ystod y cyfnodau hyn gan gynnwys y cynghreiriau lleol. Eisoes mae tîm Deiniolen wedi cael sylw ac Alun Wyn Evans a Dewi Williams wedi darlledu. Y syniad yw dilyn un tîm lleol pob Sadwrn. Ceir sgoriau diweddaraf a chyfweliadau ac ymateb i'r gemau. Dyma gyfle i'r clybiau lleol ffonio eich sgoriau hanner amser i'r stiwdio ym Mryn Meirion. Dylan Llywelyn sy'n llywio'r rhaglen mewn arddull hamddenol, hwyliog. Ydi'r drefn newydd yn eich plesio tybed? Arbrawf am bum wythnos geir i ddechrau cyn gwneud penderfyniad ynglŷn â'r drefn o fis Medi ymlaen. Os oes gennych farn sgwennwch at Gwyn Derfel yn Adran Chwaraeon y BBC yng Nghaerdydd.

EHANGU GORWELION

Mae'r byd yn mynd yn fach! Mae hyn yn arbennig o wir ym myd y campau. Daw timau o Iwerddon i fro'r Eco yn rheolaidd, a'r wythnos ddiwethaf daeth tîm o Dde Affrica yma. Tipyn o siwrnai o gofio mai tîm o fechgyn dan 13 oed oeddynt. Y tîm oedd y Red Saints, sef tîm yn cynrychioli dwy ysgol yn ninas Johannesburg. Mae pawb yn gyfarwydd â llwyddiant De Affrica yn y byd rygbi a chriced ers iddynt ddychwelyd o'u caethglud rhyng-wladol. Erbyn hyn mae pêl-droed yn dod yn fwy a mwy poblogaidd yno.

Ychydig iawn o gefnogaeth ariannol a gafwyd gan y llywodraeth cyn y newid gwleidyddol a fu yn y wlad. Wedi rhwygo'r ffiniau apartheid roedd awydd adlewyrchu cryfder cynhenid y Boera Bantu ym mhob maes chwarae. Datblygodd pêl-droed yn eithriadol. Yn 1996 cynhaliwyd yr African Nations Cup yn Ne Affrica am y tro cyntaf erioed. Gwelwyd torfeydd enfawr yn cefnogi'r tîm cartref — y 'Bha Bhas' (Hogia Ni). Enillodd y tîm yn erbyn Cameroon a rhai o dimau cryfaf y cyfandir cyn cipio'r cwpan trwy guro

Tunisia o 2 gôl i 0. Mae sawl un wedi cyfeirio at ddatblygiad rhyfeddol y gêm ar gyfandir Affrica gan ddarogan y bydd un o dimau'r cyfandir hwn yn ennill Cwpan y Byd cyn hir. Mae ugain gwlad o Affrica yn rhan o gystadleuaeth bresennol Cwpan y Byd a bydd pump ohonynt yn cael lle yn y rowndiau terfynol yn Ffrainc.

Roedd y bechgyn ar daith i Ewrop a threfnwyd gemau iddynt yn yr Iseldiroedd, Lloegr a Chymru. Cawsant weld gemau yn Stamford Bridge, Old Trafford ac Anfield.

Ar yr Oval yng Nghaernarfon wynebodd yr ymwelwyr dîm a gynrychiolai Gynghrair Gwyrfa'i ac roedd tri o fechgyn o fro'r Eco yn y tîm hwnnw, sef Owain Sion Williams (Bethel), Owain Morris (Llanberis), ac Alistair Addison (Waunfawr, ond sy'n chwarae i dîm Lanrug). Yn anffodus roedd tîm y gynghrair yn llawer rhy gryf er bod rhaid canmol yr ymwelwyr am eu dyfalbarhad. Y sgôr derfynol oedd 7-0. Roedd yr lleol ymysg y sgorwyd ac yn dangos sgiliau da wrth drafod y bêl ar faes eang yr Oval. Hoffai swyddogion y gynghrair i mi ddiolch i noddwyr hael y gynghrair am eu cefnogaeth ac i Dafarn y Twthill am ddarparu lluniaeth i'r ddau dîm wedi'r gêm. Braf cael adrodd hanes enghraifft arall o wir ystyr byd y campau - torri muriau rhagfarnau, ffurfio cyfeillgarwch ac ymestyn profiad.



Carfan Cynghrair Eryri ar yr Oval.